

ECO'R WYDDFA

RHIF 305

TACHWEDD 2003

PRIS 40c

- Agor Canolfan
Caeathro – tudalen 3
- Lluniau Carnifal
Penisarwaun – tudalen 15

ANTUR I WELD YR HEN FEUDY A 10 DOWNING STREET

MAE'R gwaith o ail-godi hen feudy cerrig o'r Waunfawr, gafodd ei gludo i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan, bron a dod i ben a bu criw o Antur Waunfawr lawr i Gaerdydd i weld sut mae'r gwaith yn dod yn ei flaen ar yr hen adeilad. Flwyddyn yn ôl yn yr Eco cafwyd stori'r beudy, sy'n dyddio 'nôl i'r 18fed ganrif, oedd am gael ei gludo i lawr yr A470 i Sain Ffagan.

Y bwriad oedd ei ailgodi wrth ymyl Llainfadyn, bwthyn a adeiladwyd yn Rhostryfan yn wreiddiol yn 1762, ond sydd bellach yn un



Criw o Antur Waunfawr o flaen y beudy yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Croesawyd y grŵp gan Gyfeillion yr Amgueddfa a'r gweithwyr oedd wedi bod yn dymchwel y beudy beth amser yn ôl. Darparwyd lluniaeth ac roedd cyfle i ymlwbro drwy'r safle i edrych ar adeiladau a chreirau'r gorffennol, yn ogystal â sylwi ar adeilad diddorol arall sef Tŷ y Dyfodol. Roedd hwn o ddiddordeb arbennig i'r gweithwyr yn enwedig o gofio y bydd adeilad 'gwyrd' cynladwy newydd yn cael ei adeiladu ar safle newydd Antur Waunfawr yng

wrth eu bodd. Trefnwyd yr ymweliad – a oedd yn rhan o ddau ddiwrnod o hyfforddiant yn y brif ddinas – ar y cyd rhwng Ken Brassil, Swyddog Addysg Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Sioned Hughes, Amgueddfa Werin Sain Ffagan a Dafydd

Arfon Jones, Swyddog Addysg Antur Waunfawr.

Mae wedi bod yn fis prysur i'w Antur – gan eu bod hefyd wedi cael gwahoddiad i fynd i 10 Downing Street, ar gyfer derbyniad gyda Tony Blair ar ddatblygiad cynladwy.

Llwyddiant Band Llanrug



Llongyfarchiadau i Seindorf Arian Llanrug fu'n fuddugol yng nghystadlaeth Bandiau Pres Prydain yr wythnos diwethaf.

Roedd 23 o fandiau ar draws Prydain yn cystadlu yn ail adran y gystadlaeth a gynhaliwyd ddydd Sul, 26 Hydref yn Pontins, Prestatyn – ac fe ddaeth Llanrug ar y brig.

Roedd pawb yn hynod falch ar ôl siom Pencampwriaethau Bandiau Pres Prydain yn Dundee fis Medi pan na wnaeth y band crystal ag yr oeddynt wedi gobeithio. Ac yn sicr, bydd y wobr gyntaf o £1,500 yn fuddiol dros ben.

Tri Tîm ar y Brig

– stori ar y dudalen gefn

Cyngreiria

Yn Llanrhaeadr

Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

Yn Llanrhaeadr

ECO'R WYDDFA

RHIF 305

TACHWEDD 2003

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Swyn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-GEED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

V RHIEVN NESAE

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, TACHWEDD 17

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 27

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Rhagfyr	17 Tachwedd	27 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677438
Nadolig / Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

Llythyrâu

Garreg Lwyd
7 Bryn Rhos
Rhosbodrual
Caernarfon
Gwynedd
LL55 2BT

Hydref 20ed 2003

Annwyl Olygydd

Craig yr Undeb

I rai ohonoch sydd wedi
cerdded heibio Craig yr
Undeb, Pen Llyn yn
ddiweddar fe sylwch bod cofeb
Undeb Chwarelwyr Gogledd
Cymru wedi ei symud i leoliad
newydd ar y graig yn wynebu'r
hen ffordd.

Mae hyn yn newyddion
arbennig o dda ar ôl gweld y
gofeb yn cael ei amharchu a'i
chuddio oherwydd ei lleoliad
dros y blynedd diwethaf.

Canlyniad bron i ddeng
mlynedd o ohebu cyson a sawl
cyfarfod, yn gyntaf yn enw
Antur Padarn ac yna yn
bersonol, ydi gweld y gofeb
mewn lleoliad anrhydeddus
erbyn hyn. Bu yn ymgyrch hir
ond gwerth chweil.

Hoffwn ddiolch i Stad
Glynllifon ac Undeb
Gweithwyr Traftnidiaeth a
Gweithwyr Cyffredinol am
gytuno i symud y gofeb i'w
lleoliad newydd: i Mr Tom
Jones, Ysgrifennydd Ardal yr
Undeb am ei gefnogaeth a'i
gydweithrediad ac i Mr. Wyn
Williams o Adran Cynllunio a
Datblygu Economaidd, Cyngor
Gwynedd am ei waith caled yn
hyrwyddo'r broses a threfnu
bod y dasg yn cael ei chwblhau.

Gyda'r gofeb wedi ei lleoli

mewn man teilwng braf fyddai
gweld y ffordd sydd yn arwain
ati yn cael ei thwtio fel bod
modd i ni i gyd allu ymweld â'r
man gyda'r golygfeydd
ardderchog o Ddyffryn Peris,
tra ar yr un pryd dalu
gwrogaeth i'r chwarelwyr am
eu dewrder i sicrhau llais a
thegwch yn y gwaith.

Yn gywir iawn

Glyn Tomos

DRAENOG

Sgwn i faint ohonoch gafodd
gylchlythyr gan gwmni
gwerthwyr tai o Gaernarfon
yn ystod y mis. Mae cwmni
Beresford Adams, Stryd y
Bont (ble bynnag mae honno:
efallai mai'r Bont Bridd sydd
ganddynt dan sylw), 'angen tai
yn Llanrug', ac yn cynnig dod
draw 'i gael sgwrs'. Y slogan ar
eu cerdyn hysbysebu yw 'Lie
Mae'r Cmmr Yn Dod
GYNTAF' !!! O'i gyfieithu,
yr ystyr yw 'Whêr ddy
(Welsh) langwij cymys last.'



1 Cei Llechi
Caernarfon
01286 676804
07770 951007

**Ffair Nadolig yng
Ngwesty Carreg Brân
Llanfairpwll
Dydd Sul, Tachwedd 2**

Beics o bob maint,
Trelars,
Beics tynnu i blant
a Nwyddau Beicio

Bargeinion ar gyfer y
Nadolig!!

RHODDION

£10: Lowri Thomas, 13
Ffordd Tŷ Du, Llanberis;
Dilys Wyn Jones, Bryn Pistyll,
Fachwen; Mrs Megan Jones,
56 Glanffynnon, Llanrug;
Helen a Geraint Evans,
Bethel.

£5: Catherine Pritchard, 1 Dôl
Eilian, Llanberis; Annie a
Gareth, 21 Dôl Eilian,
Llanberis; Arwyn a Nia,
Talgarreg, Clwt-y-bont; David
a Dawn Parry, 14 Tai Marian,
Deiniolen; Miss Kate Roberts,
Waunfawr; Mrs Nancy
Williams, 2 Bro Waun,
Waunfawr; Ken a Glenys
Williams er cof am Mr a Mrs
Percy Williams, 3 Llys y
Gwynt, gynt.

£3: Derek a Freda Jones, 62
Maes Padarn, Llanberis.

YR HYDREF

Rhown groeso unwaith eto
I'r hydref 'nôl i'n plith,
Mor hardd yw lliwiau natur
I'w canfod rif y gwlith;
A hyfryd gweled popeth byw
Yn dilyn trefn arglwyddiaeth Duw.

Mae'r rhod yn ymdawelu
Yn swrth, 'rôl hirddydd braf;
A'r ddaear fydd mewn trymgwsg
Yn dilyn cyffro'r haf;
O am fwynhau bob munud awr
O'r hud sy 'ngwyrthiau'r Crewr
mawr.

Toreithiog fu'r cynhaeaf
Caed llawnder yn ei dro;
Y ffrwythau'n llenwi'r goedlan
A pherthi llwybrau'r fro;
Mawr fo ein diolch, Dduw i Ti
Am dy fendithion aml eu rhi'.

NORMAN WILLIAMS,
BRYNREFAIL

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



CERBYDau CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

SPAR

Y STORFA
LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

O'r Garej i Ganolfan y Capel Newydd



Saith mlynedd yn ôl wynebodd pentref Caethro, sydd tua dwy filltir o dref Caernarfon, nid yn unig cau Festri'r Capel, oedd wedi bod yn fan cyfarfod i ddigwyddiadau'r capel a digwyddiadau cymunedol, ond hefyd Capel y pentref. Roedd cyflwr corfforol y ddau adeilad wedi dirywio i'r fath raddau fel bod cymeryd dim gweithrediad ddim yn ddewis. Buasai hyn yn arwain at gau y ddau adeilad.

Mae Caethro yn bentref o tua 250 o oedolion a 70 o blant. Mae yno fodurdy hefo siop ac hefyd tafarn. Serch hynny, nid oes ysgol, eglwys na neuadd gymunedol, ac os buasai'r unig gapel a festri yn cau, ni fuasai unrhyw fan cyfarfod yn y pentref i weithgareddau crefyddol na secwlar.

Felly cafwyd y syniad o werthu'r festri a'r tŷ capel a chael cronfa gychwynnol i addasu a moderneiddio adeilad y Capel a'i fabwysiadu ar gyfer defnydd crefyddol a secwlar. Buasai hyn unwaith eto yn rhoi y Capel yng nghanol y pentref gyda adeilad modern a neuadd aml-bwrpas. Cytunwyd i'r cysyniad gan Henaduriaeth Arfon o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a roddodd becyn cyllidol mewn llc i foderniddio yr adeilad a darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau addoli crefyddol - £93,000.

Ceisiodd y pwyllgor lleol wedyn gael cronfa i'r cyflusterau cymunedol, yn bennaf y gegin, mynediad i'r anabl, toiledau i bawb, ystafell adloniant, swyddfa gymunedol a thirlunio allanol. Roedd cost hyn yn £52,000 ychwanegol. Gwnaed tua ugain o geisiadau am gymorth grant. Yr oeddynt yn llwyddiannus gyda grantiau rhwng o £1,000 a £1,500 oddi wrth Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, Lloyds TSB a'r Mudiad Cydweithredol. Serch hynny, heb y tri prif grant, sef £7,000 gan Gyngor Cymuned Yauafawr, £19,500 gan Gyngor Gwynedd a £17,500 o Gronfa

buasai'n rhaid i'r prosiect fynd ymlaen hefo elfen y Capel yn unig.

Ar ôl dwy flynedd o waith adeiladu, yn ystod yr amser roedd y Capel a'r Ysgol Sul yn parhau i gyfarfod yn Ystafell Bwrdd modurdy'r pentref, ni chaewyd drysau'r Capel! mae'r cyfleuster newydd - Canolfan y Capel - nawr yn barod.

Yng ngeiriau Mr Ifor Hughes, aelod o'r Capel a phreswylydd gydol oes o'r pentref. 'Mae'r cyfleuster newydd yn cyfuno dwy elfen bwysig yn y pentref - y Capel a'r gymuned - mewn un adeilad. Mae'r cyfleuster newydd ar agor saith diwrnod, i'r ifanc, i'r henoed ac i deuluoedd. Nid oes amheuaeth fod y grant o Gronfa Amgylchedd Hanson, sydd yn berchen ar gwmni Gwaith Brics Hanson yng Nghaernarfon, nid neipell o Gaethro, wedi ein galluogi i orffen y prosiect hwn.'

Am fanylion pellach cysylltwch â Clive James: Ffôn: (01286) 679501 (gwaith); 677438 (cartref). Ffacs (01286) 679488 neu e.bost: clive@gwynedd.gov.uk

I weld yr adeilad, cysylltwch ac Ifor Hughes (01286) 674342.

(Am hanes agoriad y ganolfan - a gweddill newyddion Caethro - trowch i dudalen 17.)

SANDS GWYNEDD

Cynhelir y gwasanaeth coffa blyneddol yng Nghapel Ysbyty Gwynedd am 3 o'r gloch dydd Sadwrn Tachwedd 8fed.

UN FUNUD FACH

CADW'R IAITH

Dwi fawr o ganwr, ac rwyf wedi hen ddygymod â hynny ers i'm hen athro, y diweddar Gwyndaf Evans, fy nhaflu allan o'i barti cerdd dant yn Ysgol Brynrefail am 'ganu octef yn is na phawb arall'. Am wn i mai ei ffordd glên ef o ddweud fy mod allan o diwn yn llwyr oedd hynny. Dim ond unwaith ers hynny y mentrais ganu ar lwyfan, gan droi Hywel a Blodwen' yn ddeuawd ddigri yn Eisteddfod yr Ysgol er mwyn ceisio cuddio'r diffygion lleisiol!

Daeth fy ngyrfa canu i ben y noson honno, ond mae Steddfod Ysgol Brynrefail mor boblogaidd ag erioed. Cafwyd Steddfod lwyddiannus arall yr wythnos diwethaf, ac roedd yn braf bod 'nôl yn neuadd yr Ysgol yn mwynhau'r cystadlu brwd a'r perfformio graenus. Ac ar ddiwedd y noson roeddwn innau'n falch mai Gwyrfa, fy hen dŷ i, ddaeth i'r brig eleni. Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am lwyddo i gynnal Steddfod ardderchog. A diolch i'r Ysgol am roi cyfle iddynt i wneud hynny o flwyddyn i flwyddyn.

Mae'r Steddfod, fel llawer o bethau eraill, yn cyfrannu at gynnal Cymreictod ein hardal. Rwyf fi, fel chithau mae'n debyg, yn credu bod ein hiaith a'n diwylliant yn rhoddion gwerthfawr Duw i ni. Nid pethau i'w dibrisio mohonynt, ond pethau i'w meithrin a'u mwynhau a'u mawrygu. Maent yn bethau i'w diogelu ac i fod yn ddiolchgar i Dduw amdanynt. Ac fe ddylai popeth sy'n diogelu ac yn dyrchafu iaith a diwylliant ein cenedl gael eu parchu a'u gwarchod gennym.

Mae ein Cristnogaeth a'n capeli wedi cynnal ein hiaith ers cenedlacthau. Nid yr un peth mo'n crefydd a'n hiaith wrth gwrs. Nid yr un peth mo'n diwylliant a'n Cristnogaeth. Mae'n Cristnogaeth yn fwy na'r Gymraeg, am fod Crist ei hun yn fwy gwerthfawr nag unrhyw beth dan haul. Ond mae'n capeli, trwy gynnal y dystiolaeth Gristnogol yn yr iaith a roddodd Duw iddynt, wedi gwneud cyfraniad rhyfeddol i barhad a ffyniant y Gymraeg dros y blyneddau. A thrwy ras Duw bydd ein hen gapeli, a'n capeli newydd, yn gwneud hynny eto am flynyddoedd lawer, wrth barhau i dystio am ryfeddol waith y gŵr fu ar Galfaria; gan wneud y tystio hwnnw, gobcithio, yn yr iaith a garwn ac a anwylwn.

JOHN PRITCHARD

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI



Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol * Partiön rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188




ORIEL CWM Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

O SIAMBAR SELWYN

Mae Golygyddion yr Eco, chwarae teg iddyn nhw, wedi caniatáu pen-rhyddid i mi sôn am beth a fynna i yn y golofn hon dros y blynyddoedd. Mae cynnwys y sylwadau a ddaw o'r Siambar yn dibynnu'n aml ar gais y darllenwyr.

Wrth gwrs, mae 'na rai yn awyddus i mi sôn am y gwahanol deithiau i bellafoedd daear, tra mae'r ychydig sydd ar ôl o'r hen Fethalians yn crefu arna i i sôn mwy am yr hen bentre. Wel, am y tro dydw i ddim am grwydro i oerni'r Arctic, nag i lethrau'r Ayres Rock yn Awstralia bell. Tydw i ddim, hyd yn oed, am grwydro i lawr y lôn i Fethel. Na dwi am aros yn gwbwl gartrefol yng ngardd Crud-yr-Awen, Penisa'rwaun.

Yn ystod fy mhlehtyndod mi fu gen innau greaduriaid anwes, boed gwningen, pysgodyn aur, ac ar un cyfnod, grwbwn. Ond y rhai a gofias fwy ydi'r ddwy gath, Mwt a Tibs.

Mwt oedd cath fy mhlehtyndod i. Y gath honno a gafodd y profiad o gael ei gollwng o ffenest llofft Bryn Alun ynghlwm wrth sgarff pen-blwydd fy nhad, fel parasiwt. Na, agorodd y parasiwt ddim, ond diolch i drefn natur fod gan gathod naw bywyd, fe ddaeth Mwt dros y profiad brawychus. Cath dyddiau plentyndod Euron oedd Tibs. Roedd honno yn awyddus i ddysgu, roedd hi'n sgolar, ac fe ddilynai Euron yn aml i'r ysgol. Ei phrif hoffter yno oedd dringo'r llenni, ac fe gafodd ei diarddel o'r sefydliad addysgol yn gynnar yn ei bywyd.

Un ci fu ar yr aelwyd. Pete oedd hwnnw ac fe ymddangosodd erthygl goffa iddo yn yr Eco pan ymadawodd a'r fuchodd hon sawl blwyddyn yn ôl bellach. Oedd, roedd Pete yn gymeriad. Roedd o'r un mor ffyddlon yn nhafarn y Gors Bach ar nos Sadwrn ag y byddai o yn gwarchod drws Capel Bethel yn amyneddgar ar fore Sul. Mwngral oedd Pete - ond pedigree o fwngral.

A dyna fi, ar fy ngwaetha, wedi grwydro i Fethel. Ond dowch hefo fi i'r ardd 'ma i weld y creaduriaid sydd wedi dod yma heb ganiatâd. Y blincin malwod 'ma. Pam ma nhw'n dod yma? Does 'ma ddim plot o lysiau o gwbwl ac mae Myra, chwarae teg iddi, yn ceisio cadw'r ardd yn weddol daclus. Ond yma ma nhw'n yn un fyddin gragenog. Petawn i'n hoff o falwod fel byr-bryd, fe gawn

wledd yn aml, ond unwaith yn fy mywyd y gwnes i eu blasu nhw, a hynny ar fordaith. Do, mi fûm yn sâl ac nid sâl môr oeddwn i. 'Never again,' y profa i falwen. Weithiau, pan fydda i'n cyrraedd adre yn oriau mân y bore o ambell Steddod a dringo'r stepiau yn nhalcen y tŷ 'cw, mi glywa i gresian o dan fy nhraed. Dim bloedd na gwich, ond un arall wedi mynd i'w thranc o dan droed gŵr blinedig tair stôn -ar-ddeg.

Gan eu bod nhw mor hapus yn cartrefu yn yr ardd 'cw fe wnes i dipyn o waith ymchwil amdany'n nhw, a choeliwch neu beidio ma'n nhw'n greaduriaid diddorol iawn.

Wyddwn i ddim y gallan nhw gysgu am dair blynedd heb ddeffro. Mae gan rai ohonyn nhw tua phum mil o ddannedd, ac ma'r dannedd i gyd ar 'i tafodau nhw. Coeliwch neu beidio ma nhw'n cusanu cyn cael cyfathrach rywiol. A dim ond unwaith mewn oes ma nhw'n cyflawni'r weithred honno. Gweithred sy'n cymryd deuddeng awr iddyn nhw. Na, tydi bywyd malwan ddim yn fêl i gyd, nagydi? Mae 'na wirionedd mawr yn y dywediad 'ara deg fel malwen'. A wyddoch chi bod yr Emericanwyr yn bwyta tua phum can miliwn o falwod bob blwyddyn. Wel pob croeso iddyn nhw, neu rywun, ddod i'r ardd 'cw i helpu eu hunain. Fe'i cewch nhw'n rhad ac am ddim.

Mac 'na fwy o groeso i'r adar acw. Mae nhw yn gwledda acw drwy'r dydd ac yn mynd drwy bwysu o gnau. Dwi'n treulio oriau yn 'i gwyllo nhw, weithia yn bwydo'i gilydd, dro arall yn bygwth ac yn ymladd. Yn ddiweddar mae 'na ddwy golomen yn dod acw yn rheolaidd am frecwast, cinio, te a swper. Colomenod a hanner cylch du ar gefn eu gyddfau. Maent yn fwy ofnus na'r colomenod sydd dan drac ar y maes yng Nghaernarfon. Mae'r adar bach a hwythau yn eitha cyfeillgar â'i gilydd. Rydwi wodi eu bedyddio nhw â'r enwau Mair a Maratha. Peidiwch gofyn pam.

Does gen i ddim enw ar yr un o'r malwod. Ddown i byth i ben.

CLWB ERYRI

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod cyntaf Tymor 2003-2004 gan y Llywydd newydd Geraint Elis, Bethel. Croesawyd hefyd dau aelod newydd, sef Geraint George, Brynrefail ac Emyr Williams, Ceunant.

Cyflwynwyd teyrnged arbennig iawn gan John Huw Hughes i'r diweddar aelod er anrhydedd o'r clwb, Stanley Owen, Bontnewydd. Cyfeiriodd at Stanley Owen fel gŵr diwylliedig iawn, darllenwr mawr yn y Gymraeg a'r Saesneg, gŵr diddan, ffraeth a chwim ei feddwl cyfaill diffuant ac mai dyma oedd ei nodwedd pennaf.

Bardd y noson oedd Geraint Lloyd Owen a chafwyd cerddi arbennig iawn ganddo, gan gynnwys dau englyn o deyrnged i'r diweddar Stanley Owen. Bardd y mis nesaf fydd Wyre Thomas.

Fel sy'n arferiad yng nghyfarfod cyntaf y tymor, cadeirydd y noson oedd yr Islywydd newydd, Ralph Jones, ac aeth ymlaen i gyflwyno y Llywydd fel siaradwr y noson.

Datblygiad y defnydd o dechnoleg mewn addysg oedd testun Geraint ac yn briodol iawn o gofio oed cyfartalog aelodau'r Clwb, dechreuodd gyda'r llechen las! Aeth ymlaen

i sôn am ddatblygiad y cyfrifiaduron mewn addysg. Treuliwyd gweddill yr amser gyda Geraint yn dangos ei ddawn gyda'r dechnoleg newydd, drwy fynd a'r aelodau drwy wers electronaidd ar 'Grwydro Lawr yr Afon'. Mor ddiddorol oedd y dull yma o ddysgu o'i gymharu â'r dulliau traddodiadol.


Cafwyd trafodaeth ddifys iawn o'r llawr gyda sawl aelod yn cyfeirio at eu profiadau diddorol ac amrywiol gyda'r dechnoleg newydd. Cyfeiriwyd hefyd at bwysigrwydd cywirdeb iaith a chystrawen - sy'n mynd ar goll weithiau gyda'r dulliau newydd.

Diolchwyd i'r siaradwr yn briodol iawn gan Dafydd Ellis - a ddiolchodd yn ddiwyll iawn hefyd i'r bardd am y cerddi arbennig iawn a garfwyd ganddo.

Cyhoeddodd y Llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Tachwedd 7, pryd y cadeirir gan Eurwyn Jones gyda John Norman Davies yn traddodi'r araith.

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746



Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Mari Wyn Williams

Pleser o'r mwyaf yw ysgrifennu ychydig eiriau yn olrhain hanes gyrfa Mari Wyn yn y maes cerddorol a chanu operatig.

O Lanberis y daw Mari, yn Ferch i Mona, 6.Stryd Fictoria, ond yn 3 Rhesdai Efrog y mae wedi byw y rhan helaeth o'i hoes. Yno gyda'i thaid a'i nain, Now, diweddar erbyn hyn, a Beryl, sydd wedi chwarae rhan mor amlwg yn ei gyrfa.

Derbyniodd ei haddysg elfennol yn Ysol Dolbadarn yna Ysgol Brynrefail, Llanrug ac y mae'n awr yn Fyfyriwr yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd.

Pan yn ifanc iawn yn yr ysgol a'r Ysgol Sul, roedd Mari yn hoff o ganu gan feddu ar lais glân plentyn. Bu Gareth Jones, Organydd Capel Coch o gynhorthwy mawr iddi yn y dyddiau cynnar, ac hefyd Enir Wyn o Rhiwlas. Tra yn darparu ar gyfer y Lefel A yn Ysgol Brynrefail, darparwyd hi gan Sian Wyn Gibson. Yn ystod ei gyrfa bu'r pianydd, Annette Bryn Parri, yn gefn mawr i Mari, a mawr yw ei dyled i'r cerddorion hyn.

Pan yn blentyn enillodd lawer gwobr mewn eisteddfodau lleoll a thystiolaeth o hyn yw'r lluthysau ayyb. sydd ganddi gartref.

Am gyfnod cafodd Mari seibiant o ganu, a da o beth oedd hyn. Datblygodd ei llais yn rhyfeddol ac fe sylweddolodd a hi ac eraill fod llais unawdydd operatig ganddi.

Aeth yn fyfyrwr i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd ac, yn dilyn gyrfa tu hwnt o lwyddiannus yno, graddiodd eleni.

Tra yn y coleg daeth Mari i amlygrwydd oherwydd ei llais soprano cyfoethog a'i phersonoliaeth addas i ganu unawdau operatig. Dewiswyd hi i gael hyfforddiant mewn 'Master Classes' gan athrawon enwog megis Larissa Gergien a Petersburg, Rwsia. Y mae wedi llwyddo i ymgodymu â chanu mewn ieithoedd estron megis Ffrangeg, Rwsieg, ac Almaeneg. Yn barod y mae wedi canu gyda Chwmni Opera Ieuencid Cymru. Hi oedd Y Beggar Woman yn 'Sweeney Todd' ac hefyd Lucy yn 'Opera Paradise' Moscow. Y mae wedi canu rhan



Madam Butterfly hefyd a llawer i unawd operatig arall. Y mae Mari yn gwerthfawrogi gwaith a dylanwad Marilyn Rees, ei thiwtor yn y coleg. Mawr iawn yw ei diolch iddi hi am ei llwyddiant.

Er iddi ganu yn Neuadd Sant Dewi, Caerdydd, ac ennill Ysgoloriaeth Mary Violet Williams, yr awr fawr yn hanes Mari yw'r noson arbennig honno ar lwyfan yr Eisteddfad Genedlaethol ym Meifod yn mis Awst eleni. Y noson honno, o flaen cynulleidfa enfawr yn ogystal â miloedd o wylwyr y teledu, swynwyd pawb oll am ugain munud gan lais cyfoethog a thalent arbennig Mari Wyn. Do, fe enillodd Mari ysgoloriaeth W. Tywyn Roberts y noson honno gyda chanmoliaeth uchel. Uchelgais pob unawdydd ifanc yw'r orchest hon a bu yn allweddol i lwyddiant sawl unawdydd operatig proffesiynol. Cofir fel y bu i Bryn Terfel a Rhian Owen (Llanberis) rannu y wobwr hon yn y gorffennol.

Drwy gyfrwng yr ysgoloriaeth a chyfraniad noddwyr eraill, megis Cwmni Laura Ashley, gall Mari ddilyn cwrs dwy flynedd ychwanegol yn y coleg i'w meithrin ymhellach mewn ieithoedd unawdau operatig.

Ydyw y mae Mari Wyn wedi llwyddo yn eithriadol ac wedi gweithio'n hynod o galed i gyflawni ei gorchestion. Pan gartef am seibiant, dal i ymarfer ei chanu a wna. Gwledd arbennig i deithwyr a gerdda heibio i Rhesdai Efrog am gopa'r Wyddfa yw clywed y llais cyfoethog hwn. Ffodus iawn i Vnel Ernest pan yn ei weithdy neu yn y gerddi yw cael clywed miragl y canu swynol.

Ond beth am y dyfodol? Uchelgais Mari yw bod yn seren operatig enwog, a chael canu yn y Tŷ Opera yn Ffrog Newydd. Yn sicr, mae ei thraed yn gadarn ar y llwybr i'r brig. Dymunaf bob llwyddiant a bendith, a hwyl fawr iti Mari Wyn.

CARTHEN PWLLHELI

Bu aml i gyfeiriad yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn y Wasg, yn arbennig yng nghylchgrawn *Y Casglwr*, ac ar ambell raglen deledu, am Garthen Pwllheli.

Rwy'n cyfrif fy hun yn dra ffodus fod un gennyf yn fy meddiant, ac mae hynny i gyfrif oherwydd i mi ei hetifeddu gan fy nhaid, y diweddar Hugh Davies, Ffrwd Goch a anwyd yn 1878.

Hanai ef o Danycoed ac mae'n debyg mai yng nghyfnod ei ieuencid yr oedd y carthenni yn cael eu nyddu. Yn dilyn chwalu'r cartref yn Nhanycoed mae'n debyg i'r plant gytuno ar eu dewis o gelfi i'w dwyn i'w cartrefi eu hunain a dyna sut y daeth y garthen i Frynrefail. Roedd fy hen nain yn hanu o'r Waunfawr ac yn ferch i deiliwr yn y pentref. Daeth ei gist dderw, fel yr adroddwyd i mi lawer gwaith, lle yr oedd yn storio ei ddefnyddiau cyn eu teilwria, yn un arall o ddewisiadau fy nhaid i'w gartref ac sydd yn fy meddiant o hyd. Mae'n wybyddus fod rhai o'r carthenni hyn wedi cael eu gwneud ym Melin Pontrug, heb fod ymhell o'r hen gartref. Oherwydd hynny ac efallai y traddodiad oedd yn y teulu o ymwneud â defnyddiau, mae'n debyg ei bod yn wir ddeisyfiad cael meddiannu carthen mor drawiadol.

Roedd y garthen yn cael ei defnyddio yn rheolaidd ar wely fy nhaid yn ystod misoedd oer y gaeaf pan oeddwn yn blentyn.

Y cof mwyaf byw sydd gennyf ohoni oedd ei chraster pan fyddwn yn cael fy ngwthio dan ei chongl yn y bore bach i gael fy ngwarchod ganddo tra byddai fy rhieni allan yn godro'r gwartheg.

Ni fu carthenni mor drwm yn ffasiynol yn ymarferol yn y blynyddoedd diwethaf.

Felly yn ei phlyg y bu'r garthen ers tua ugain mlynedd. Rhyw bum mlynedd yn ôl tra'n gwneud y clirio blynyddol ac edrych arni, mor unigryw ei phatrwm, teimlais ei bod yn resyn o beth ei bod yn cael ei chadw o'r golwg. Nid oeddwn yn teimlo fy mod eisiau ei rhoi ar un gwely gan fod ymylon ei dau ben wedi treulio yn arw, oherwydd y defnydd a fu arni yn y gorffennol. Felly dyma gael y syniad o'i harddangos fel tapestri a'i hongian ar fur yr ystafell fwyta. Bu'n rhaid twtio tipyn ar yr ymylon a'i sicrhau ar ffrâm. Er hynny, roeddwn yn dra balch o'r ymdrech yn y diwedd. Roedd teulu a chyfeillion yn llawn edmygedd ohoni yn ystod eu hymweliadau a chael mwynhad o sylu arni a'i hastudio dros bryd o fwyd.

Pan ddaeth yr holl gyhoeddusrwydd diweddar roeddwn yn hynod falch nad oedd yn dal yn ei phlyg o'r golwg. Beth ddwedai fy nhaid tybed, o weld y garthen a'i cadwodd mor gynnes yn ei ystafell wely yn ystod gaeafau rhewllyd a fu, yn hongian yn sioe ar fur yr ystafell fwyta?

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

cyngor
ar
bopeth

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partion, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

CHWILOTA

'SUNNY JIM' A PHLATIAD O 'GRITS'



Yn rhifyn Medi o'r 'Eco' cafwyd atgofion gan Mrs Eirlys Williams o Ddeiniolen am y gwahanol fathau o fwydydd a arferai gael eu bwyta ers talwm. Soniodd am fath o corn flakes a werthid dan yr enw 'Sunny Jim', ac am ddulliau gwahanol o ddefnyddio grawn a llefrith i baratoi prydau.

Erbyn hyn cafwyd dau ymateb i'r nodiadau rheini. Gan Dyfed Evans o Bencaenewydd y daeth llythyr ynglŷn â'r 'Sunny Jim Corn Flakes' - ond nid dyna'r enw, meddai. 'Sunny Jim Force' oedd yr enw arno, a hynny i gyfleu'r egni a ddeilliai ohono. 'Yn achlysurol fe geid rhyw anrheg fechan tu mewn i'r boc. Un boblogaidd gennym ni'n hogiau oedd chwyrrnas, sef darn o gardbord crwn, bylchau rownd ei ymyl a llinyn trwy ddau dwll yn ei ganol. Wrth gorededu a llacio'r llinyn byddai'r chwyrrnas yn chwyrllo - a chwyrrnu. "Whirligig" yw'r enw Saesneg, er na wyddem ni mo hynny! Ceid hefyd yn y paced o dro i dro, fwgwd a llun Sunny Jim arno yn wên i gyd.' Yn ôl Dyfed, byddai llawer o bobl yn defnyddio'r bocsus gwag i gadw toriadau papur newydd - math o sustem ffeilio syml. Byddai Bob Owen yn un o'r rheini, a gwelir llun o focus 'Force' yn ei lyfrgell yng Nghroesor ar gefn siaced lwch cyfrol Dyfed Evans, Bywyd Bob Owen.



Gan Rhian Williams, Rhiwbina, Caerdydd y daeth yr ail ymateb. Mae'n sôn am fwyta platiad o 'grits', cig moch ac wy i frecwast tra ar ei gwyliau yng ngogledd America. Roedd wedi clywed am y bwyd hwn o'r blaen - ar y rhaglen deledu honno a gronclai hanes y teulu rhyfedd a rhyfeddol hwnnw y 'Beverly Hillbillies'. Byddai'r nain yn y rhaglen honno bob amser yn coginio 'grits and jowls'.

Rhoes Rhian Williams gynnig ar y pryd bwyd, ac 'ar ôl un llond ceg, fe wyddwn beth oedd y "grits", sef "patent groats". Rwy'n cofio ei gael gartref yn Llanberis, a hynny fel arfer pan fyddai rhyw salwch arnaf.'

Y gwahaniaeth rhwng 'grits' Llanberis ers talwm a 'grits' America oedd y ffaith mai gyda llefrith a siwgr y byddai mam Rhian Williams yn ei baratoi. Lwmp o fenyn, halen a phupur a

roddir arno yn America.

Erbyn i'r rhifyn hwn gyrraedd y darlennydd, bydd Rhian Williams ar wyliau yn Williamsburg - ac yn mwynhau pryd blasus o 'grits', gobeithio.

Oes rhywrai eraill yn cofio bwyta 'patent groats' at salwch? Ac a oedd enw arbennig yn cael ei roi arno?

Sioe Flynyddol Llanrug


Dau ymateb gafwyd i'r hanes am y sioe fawr a gynhaliwyd ar dir Castell Bryn Bras. O fewn ychydig ddyddiau i'r 'Eco' ddod o'r wasg, cysylltodd Mrs Naomi Griffith, Hafan Elan, Llanrug. Holi roeddwn ble roedd Robert Griffith, Tai Disgwylfa, Llanrug yn cael lle i dyfu cymaint o amrywiaeth o lysiau a blodau ar gyfer y sioe. Yn ôl Mrs Griffith, roedd Robert Griffith yn daid i'w diweddar wr, Llew Griffith, ac yr oedd ganddo ardd helaeth yng nghefn Tai Disgwylfa a gynhwysai dŷ gwydr a pherllan. Roedd yn arddwr o fri, a llyfrgell o lyfrau garddio ganddo yn y tŷ hefyd.

Mae Mrs R. Morris, Penisarwaen yn cofio sioe yn cael ei chynnal ym Mryn Bras yn ystod y 1930'au. 'Primin' fyddai'r enw a roddid iddo gan ei thad, a ddeuai o Fôn. Roedd y teulu bryd hynny yn byw yn y Weirglodd Goch, a chofia am un o'r buchod yn cael gwobr yn y sioe. Mae hyd yn oed yn cofio mai Mwynig oedd yr enw ar y fuwch. Byddai adar o bob math yn cael eu harddangos yn y sioe, yn enwedig parotiaid ac adar tramor, lliwgar eraill.

Elliott Alves, wrth gwrs, oedd yn byw yn Bryn Bras bryd hynny, ac fel Stewart Barnard yn gynharach yn y ganrif, roedd yntau'n noddwr hael i achosion lleol. Faint tybed o bêl-droedwyr y cylch sy'n sylweddoli mai fo oedd yn gyfrifol am gyflwyno Cwpan Alves i gystadlu'n flynyddol amdani?

Cofnodi Sychder

Cyn i'r tywydd droi cefais alwad gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo yn adrodd fod carreg ar lan Llyn Padarn ac arni ddyddiadau wedi eu cerfio i gofnodi blynyddoedd o sychder. Mae'r garreg gerllaw'r bont ym Mhenllyn. Bellach, â lefel y dŵr yn Llyn Padarn wedi codi'n ôl, does dim posibl gweld y cerfiadau i gyd. Ymddiheuriadau am safon y



llun! Mae cymaint o olion ar y garreg fel mai anodd iawn yw ceisio darganfod beth yw'r union flwyddyn a gofnodir ambell dro. Mae'r diagram gyferbyn â'r llun yn rhoi syniad i chwi ble i chwilio. Mae'n ymddangos fod y flwyddyn 1816 yn weddol glir ac o bosibl 1714 neu 1794.

Efallai nad yw'r lefel ar y garreg yn rhoi amcan cywir o'r sychder 'chwaith. Rhaid cofio nad oedd Pont Penllyn wedi ei hadeiladu yn 1794, ac felly, roedd lefel y llyn yn debygol o ostwng yn gynt na heddiw!



York Terrace, Llanberis

Cefais nifer o alwadau ffôn yn cyfeirio at y rhan hon o Lanberis, a chyfeiriwyd sawl tro at y ffaith mai tai stiwardiaid oedd York Terrace yn wreiddiol. Soniwyd yn arbennig am un stiward a oedd yn byw yno, sef Brwynog Jones, a gai ei adnabod fel Alaw Mai. Bu'n organydd lleol am dros ddeugain mlynedd. Soniwyd hefyd am Robert 'Corni' Thomas, sef mab Cornelius Thomas, Bing. Bu yntau'n drysorydd eglwys Nant Padarn am flynyddoedd lawer. Pan oedd y teulu'n byw yn y Bing, roedd coed rhesod yn tyfu yng ngardd ffrynt pob un o dai Vaynol Cottages. Gwaith William Thomas (Yncl Wil i blant yr ardal i gyd), brawd Robert, oedd tocio'r coed rhesod yn flynyddol.

Cwestiwn a ofynnwyd gan aml un oedd pam galw'r tai yn York Terrace? Cafwyd un awgrym, ond ar hyn o bryd, nis gallaf ei gadarnhau. Yn ystod mis Ebrill 1899 cafwyd ymweliad brenhinol â chwarel Dinorwig gan y Dug a'r Dduges Efrog. Mae'r ymweliad wedi ci gofnodi mewn llechen ger Glan Bala - uwchben y ddôr a arweiniai ers talwm i gychwyn y Llwybr Main. Arno mae'r arysgrif: 'VISIT OF T.R.H.

Duke and Duchess of York, April 27 1899.' Yr awgrym yw fod y tai wedi eu hadeiladu tua'r cyfnod hwn, ac iddynt dderbyn yr enw 'brenhinol' i gofio am yr ymweliad. Oes rhywrai yn gwybod yn union pryd yr adeiladwyd York Terrace? Yr unig dai yn yr ardal sydd wedi eu dyddio yw Vaynol Cottages, a adeiladwyd yn 1906. Gyda llaw, mae llun o ymweliad y Dug a'r Dduges â Llanberis yn y llyfr 'Griffith Jones: Ffotograffydd Cynnar o'r Felinheli'.

Ac o sôn am enwau strydoedd yn Llanberis, oes unrhyw un yn gwybod pam fod cynifer o strydoedd yno wedi eu henwi yn Saesneg? Gwn mai dyna'r ffasiwn ers talwm. Roedd rhyw urddas arbennig yn cael ei osod ar dŷ neu dai os oedd ganddynt enw Seisnig. Meddyliwch sawl London House, Birmingham House, Manchester House ac ati sydd ym mhentrefi'r fro, er mai siopau, mae'n debyg oedd llawer ohonynt ar y cychwyn. Yn Llanrug, er enghraifft, ceir enwau Cymraeg gyda'r ychwanegiad 'terrace' - Arfonia, Plastirion, Greuor, Disgwylfa. Yn Llanberis ceir Goodman, Yankee, Newton, York, Victoria, Vaynol a Turner. Ar dir Tlodion Rhuthun yr adeiladwyd Goodman, ond o ble daeth yr enwau eraill? Rhowch gynnig ar anfon atebion!

Teulu o Gwm y Glo

Cefais alwadau ffôn yn cyfeirio at berthnasau i'r teulu sy'n parhau i fyw yn yr ardal. Gobeithiaf fedru dilyn y trywydd yn ystod y mis nesaf.

Prifathro Ysgol Tan y Coed, Penisarwaen

Daeth cais i law ynglŷn â Beuno Jones, a oedd yn brifathro ar Ysgol Tan y Coed ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Os oes unrhyw un â gwybodaeth amdano, yn enwedig dyddiad ei farw, cysylltwch.

Teulu o Fethel

Drwy law Selwyn Griffith y daeth cais o Canada yn holi am deulu o Saron, Llanddeiniolen. Oes unrhyw un o'r darllenwyr yn ddisgynyddion o briodas Evan Hugh Griffith a Jane Jones. Ganwyd chwech o blant iddynt - yn Saron, Llanddeiniolen. Enwau'r plant oedd Sarah (ganwyd 1881) a aeth i nyrsio; Elisabeth (g.1884) a briododd Robert Lloyd Jones, ac a oedd hefyd yn nyrs; Owen Roland (g.1885) a symudodd i dde Cymru i fyw, ac a ymfudodd i Canada yn ddiweddarach; Griffith John (g.1887); Harry (g.1889) a briododd Sally; ac Evan Hugh (g.1892) a aeth, o bosibl, yn weinidog.

Os oes unrhyw un â gwybodaeth am y teulu, neu am unrhyw agwedd arall o hanes bro'r 'Eco', cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Dau Fora Dydd Llun – cyd-ddigwyddiadau Diddorol?



D oes w'bod beth i'w ganfod yn y borea'. Dyna fora Llun, sef yr unfed ar bymtheg dydd o fis Medi y flwyddyn 2002. Mae'n 9.43 a.m. Taro ar gorff marw twrch daear, (gwadden), yn gorwadd ar ei fol mewn gwter ar ochr y ffordd. Mae'n fora braf, a'r tywydd wedi bod yn fwyn crs cwpwl o ddyddia'. Nid oes archoll ar gorff melfedaidd-ddu y sawl fu farw. Does arno ddim olion o frathiada' dannadd ciath, ci na llwynog. Ni wasgwyd chwaith gan deiar car. Dychwelaf adra er mwyn ymorol am dâp mesur. Mesurir. Ail-fesurir. A gwneir hynny y trydydd tro hefyd. Mi all llyg'id dwyllo ar adega'. O flaen ci drwyn i ben ei gynffon mae'n mesur 152 cm. Mesurir ar draws ei gefn yn ogystal, a chofnodir ei fod yn 5cm. Yn ei dwnel tanddaearol, er mwyn symud, mae angan hyn o le ar y criadur bychan! Fe'i ffotograffir ac yna ail-dychwelir y corff i'r ddaear.

Ac yna, fora Dydd Llun y dydd cyntaf o fis Medi, 2003, am 11.20 a.m., bron yn yr union fan ag y t'rawyd ar gorff y twrch daear flwyddyn cyn hynny, deuir o hyd i gorff un arall. Mae'r tywydd yn lled braf. Ond 'mae'n oeri'n goblyn erbyn nos' fel y d'wedwyd wrthyf yn ddigon siriol mewn Cymra'g croyw yn y Llythyr dy lleol. O ganfod corff marw eir i chwilita am dâp mesur. Y tro hwn eto mesurir droeon. Mae'n 162 cm o fla'n ei drwyn i waelod ei gynffon. Mae'r criadur hwn yn tipyn mwy na'r un a ganfyddwyd flwyddyn yn ôl. Mae 'ma 1 cm o wahania'th! Cafodd hwn hefyd gynhebrwng teilwng, a

gair wedi'i ddeud drosto yn y Gymra'g! Da nad oedd garddwyr ac amaethwyr diwyd gerllaw. Ond dyna fo 'dydy twmpatha' tyrchod daear heb fod yn poeni pawb! Yr unig gyngor a roddaf ydyw eich bod yn gosod potal wag uwchben mynedfa twll y twrch daear. Bydd sw'n y gwynt yn taro'n erbyn y botal yn peri iddo ddianc am ei hoedl o'r ardd, a'r cae!

Dau dwrch daear yn yr un lle, ar ddyddia' Llun, yn y borea'. Pendronais lawar dros yr hyn a welais. Beth sydd a wnelo'r ystadega' â chwi a minna'? Llawar, a dim byd oll. Yn llyfra' byd Natur, a CD ROMAU, a gyhoeddir dros y Clawdd Offa, mae'r mesuriada' a gynhwysir ganddynt ynghylch maint tyrchod daear, yn gwbwl wahanol i'w gilydd! Ia, rhwng 10-15 cm, ydynt ar eu llawn brifiant. Ond gwyddom nyni fel arall! Wyddoch chwi be', hwyrach eleni ein bod yn torri cwys newydd, ond gwell inni beidio a brôlio'n ormodol ynghylch y ffaith fod gennym yn ein cilcyn bychan ni o'r ddaear gewri ym myd tyrchod daear - ia, dim ond rhag ofn i gasglwyr ffeithia' gogyfar â llyfra' byd Natur, a gyhoeddir dros y Clawdd Offa, ddechra' newid ffeithia' ac ystadega' ynghylch yr hen dyrchwyr bychain duon, a chydabod mai yma ym mro Eco'r Wyddfa yng Nghymru ein gwlad, y tynnwyd sylw gyntaf at y peth!

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

SUL DIOLCHGARWCH

Hydref 19eg 2003

Y trydydd Sul ym mis Hydref yw Sul Diolchgarwch traddodiadol y Cymry. Aeth y Dydd Llun Diolchgarwch allan o fod ac yn anghof.

Eleni, bu'r Sul Diolchgarwch o fendith mawr i mi. Cefais wahoddiad i annerch Plant Ysgol Sul Capel Ebenezer, Caernarfon yn ystod oedfa'r bore, sef gwasanaeth Diolchgarwch y Plant. Daeth llu o blant i'r gwasanaeth, gyda rhieni, neiniau a theidiau, i weld eu plant bach yn perfformio. Yn wir, fe gaed gwledd o ganu, adrodd ayyb. Huliwyd y set fawr â phob math o lysiau a bwydydd, ie, offrm i eraill oedd yr holl nwyddau hyn. Roedd yn amlwg fod y plant yn gwybod eu gwaith i'r dim ac yn sicr, fe werthfawogir llafur caled Mr. Elfed Hughes, Arolygwr yr Ysgol Sul, a'r athrawon eraill.

Yn yr hwyr braint oedd cael mynd i Gapel Brynrefail i bregethu. Mwynhad i mi bob amser yw cadw cyhoeddiad ym Mrynrefail ymhlith y cyfeillion deallus sydd yno.

I goroni'r cyfan darlledwyd Oedfa o Ddiolchgarwch yn y rhaglen adnabyddus 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' ar S4C yn yr hwyr. Hyfryd oedd

gwrando ar y canu, a chyn bwysiced oedd cyfraniad Plant Ysgol Uwchradd Brynrefail. Fe'm swynwyd â chanu disgybledig côr yr Ysgol yn atsain yn felodaidd i gefndir y capel ardd. Llongyfarchiadau i'r ddwy athrawes am yr emyn tymhorol a gyfansoddwyd ganddynt. Yr oeddwn wedi dotio hefyd at ddull hamddenol y bobl ifainc tra'n sgwrsio'n gartrefol o flaen y camerâu. Llongyfarchiadau Ysgol Brynrefail am gyfraniad mor odidog.

Rhaglen gwerth chweil oedd hon ar gyfer Sul Diolchgarwch. Hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad diffuantaf i bawb a gymerodd ran gan sicrhau llwyddiant yr oedfa. Yn arbennig, diolch i Rol Williams am ei weledigaeth a'i gyfraniad i'r rhaglen gyntaf a ddarlledwyd fisoedd yn ôl, yn ogystal a'i egni brwd bob amser.

Oes yn wir, y mae gennyf lawer i ddiolch amdano.

JOHN H. HUGHES

**Peidiwch a gori ar
stori – anfonwch
hi i'r ECO**

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

RED
ELLENVAE PLOTTER
GENERALIST
NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLVNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith
Cynfi. Ffôn: (870394)

CYLCH TI A FI. Mae'r Cylch Ti a Fi wedi ailgychwyn a bydd yn cael ei gynnal yn yr Ysgol Feithrin bob dydd Llun o 1.30 hyd at 3.00 o'r gloch. Croeso i bawb.

DIOLCHGARWCH. Nos Sul, 12 Hydref cynhaliwyd cyfarfod gweddi Diolchgarwch Cefnywaun. Cymerwyd rhan gan amryw o'r aelodau: Marian Jones, Eirlys Gibson, Beti Williams, Beti Lloyd Roberts, Yvonne Regan, Carys Murphy, Anwen Thorman Jones a Helen Sutherland. Y llywydd oedd Eifion Williams.

Bore Sul, 19 Hydref cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch y plant yn Ebeneser. Cymerwyd rhan gan blant yr Ysgol Sul a chafwyd sgwrs gan y gweinidog, Y Parch John Pritchard. Braf oedd gweld cynulliad mor dda wedi dod ynghyd.

Gyda'r nos yng Nghefnywaun, cafwyd pregeth Ddiolchgarwch gan ein gweinidog, y Parch John Pritchard.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd ein swper Diolchgarwch nos Wener, 17 Hydref yn Tafarn y Rhos, Rhostrehwfa. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog a diolchwyd i'r trefnwyr gan y Llywydd, Buddug Jones.

CYFARFOD Y CHWIORYDD. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn Ebeneser pnawn Iau, 2 Hydref. Dechreuwyd gan Iona Richards a rhoddwyd y te gan Jean Parc Jones ac M.C. Griffith. Cafwyd sgwrs gan ein gweinidog, y Parch John Pritchard, ar gyfrinachau - eu rhannu a'u cadw. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Tachwedd. Croeso cynnes i bawb.

COFION. Anfonwn ein cofion gorau at Mrs Beti Lloyd Roberts, 6 Bro Deiniol. Aed â hi i'r ysbyty nos Sul, 12 Hydref, yn fuan wedi iddi gymryd rhan yng Nghyfarfod Gweddi'r Diolchgarwch.

Dymunwn iddi adferiad buan.

DIOLCH. Dymuna Arwyn a Nia, Talgarreg, Clwt-y-bont ddiolch i bawb am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu hefeilliaid, Gwenno Lona a Gruffydd Sion, ar 16 Awst 2003. Chwaer a brawd bach i Tomos Glyn. Diolch o galon i bawb.

Catherine Aran. Roedd Catherine Aran i fod i ddod i'r ysgol i gynnal gweithdai drama a stori i'r plant yn ystod yr wythnos 13-17 Hydref ond, yn anffodus, roedd wedi ei tharo â gwaeledd. Bydd y gweithdai yn cael eu hail-drefnu unwaith y bydd Ms Aran yn well.

CÔR LLEISIAU'R GWEUNYDD. Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf oedd: G. Bean, Deiniolen (£10); E. Bean, Deiniolen (£5); B. W. Roberts, Bontnewydd (£5).

Mis Awst: I. Williams, Sir Fflint (£10); A. Morris, Caernarfon (£5); H. Williams, Rhiwlas (£5).

Mis Medi: R. Duffy, Caernarfon (£10); G. Owen, Rhiwlas (£5); E. Roberts, Bethel (£5).

Operation Christmas Child. Mae'n amser gwneud y bocsys unwaith eto. Os oes unrhyw un angen pamffled, mae digon i'w cael yn yr ysgol. Dewch â'ch bocsys i'r ysgol erbyn dydd Gwener, 21 Tachwedd 2003. Diolch yn fawr.



DYMUNA David a Dawn Parry, 14 Tai Marian ddiolch i bawb a gefnogodd David pan abseiliodd i lawr Tŵr Marcwis er budd Ymchwil Leukaemia. Casglwyd £750.

Mae Rhys, mab ieuengaf David a Dawn, yn dioddef o leukaemia ers blwyddyn a hanner, yn parhau i dderbyn triniaeth yn Ysbyty Alderhey, Lerpwl ac yn gwella'n foddhaol ar hyn o bryd.

Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

YSGOL GWAUN GYNFI

Cyfarfod Blynnyddol Llywodraethwyr. Cynhaliwyd y cyfarfod yma nos Lun, 6 Hydref am 6.30pm.

Hanner Tymor. Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 24 Hydref ac yn ailagor Tachwedd 3.

Ffair Lyfrau. Cynhaliwyd ffair lyfrau Scholastic (llyfrau Saesneg) yn neuadd yr ysgol yn ystod wythnos 13-17 Hydref. Roedd cyfle i unrhyw un brynu llyfrau yn ystod yr wythnos ac enillodd yr

ysgol werth £328 o lyfrau am ddim. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Marathon Llundain. Casglwyd £417 o arian nodd i ganlyniad i lwyddiant Mr ab Elwyn yn y Marathon yn Llundain. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Roedd gwobrau ariannol i'r rhai a gasglodd fwyaf o arian a dyma'r canlyniadau:

CA1: Ynyr Davies (£40): £5; Osian Worth (£20): £3; Aron Griffith (£15): £2.

CA2: Peri a Cadi Murphy (£25.80): £5; Sian Jones (£17.50): £3; Alicia Jones (£16): £2.

Cystadleuaeth y Daily Post. Mae llun o blant y Dosbarth Derbyn wedi ei gynnwys yng Nghystadleuaeth 'Cutest Class' yn y Daily Post. Mae ffurflenni ar gael i bleidleisio ac os y byddant yn llwyddiannus bydd yr ysgol yn ennill gwerth £500 o docynnau. Os gwelwch yn dda pleidleisioch i'n dosbarth ni. Diolch yn fawr.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts
Ffôn: 870740

CÔR MEIBION. Eglwys Santes Fair, Llanfairfechan oedd cyrchfan y Côr brynhawn Sul, 14 Medi. pan gymerwyd rhan mewn gweithgareddau i ddathlu ailagor yr Eglwys, yn dilyn gwaith atgyweirio helaeth.

Nos Wener, 3 Hydref, cymerodd y Côr ran mewn noson amrywiol yng Nghlwb Cymdeithasol Rhosgadfan. Cyflwynwyd derbyniadau'r noson, dros £500, i Adran Cancr, Ysbyty Glan Clwyd, drwy law Mrs Ann Thompson.

Neuadd y Pentre, Penmachno oedd nod y Côr ar 17 Hydref. Derbyniwyd y gwahoddiad gan gangen Merched y Wawr y cylch, a chafwyd noson foddhaol yn eu mysg.

DIOLCH O GALON. Mae Dilys Baylis wedi derbyn tlws rhaglen deledu 'Diolch o galon'. Cafodd ei henwebu gan Iona ac Andy am ei gwaith yn ysgrifennu a chyfieithu penillion iddynt ar hyd y blynnyddoedd.

HOFFAI Annie a Gareth, 21 Dôl Eilian diolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafwyd tra bu Gareth yn yr ysbyty ac wedyn gartref. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Lowri, 13 Ffordd Tŷ Du ddiolch i bawb am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ben-blwydd arbennig.

DYMUNA Catherine Pritchard, 1 Dôl Eilian ddiolch i'w pherthnasau a'i ffrindiau i gyd am y llu cardiau ac anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed.

UNDEB Y MAMAU. Yn Festri Eglwys St Padarn bnawn dydd Mawrth, 7 Hydref y cynhaliwyd ein cyfarfod misol. Cymerwyd y gweddiâu gan Mrs Betty Humphreys.

Croesawyd ein gŵr gwadd, sef Mr Ken Jones, Blaen Ddol atom a chafwyd pnawn hynod o ddiddorol a dysgedig yn ei gwmni. Hanes lleol oedd ganddo dan sylw ac yn wir, addysgiadol iawn oedd yr hanes hefyd. Trafodwyd ychydig o faterion busnes.

Mrs Audrey Evans oedd yr un yn ymorol am y baned a Mrs Hilda Wyn Williams oedd enillydd y raffl. Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Nan Owen a Mrs Gwen Williams yn eilio.

Diweddwyd trwy adrodd y Gras. **DYMUNA** Derek a Freda Jones, 62 Maes Padarn ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a blodau a gafwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Ruddem.

DYMUNA Dilys Wyn Jones, Bryn Pistyll, Fachwen ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ei phrofedigaeth o golli ei mam, sef Susie Roberts, ar 28 Hydref 2003 yn 95 oed.

Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Coch ac yn dilyn ymn mynwent Llanrug.

Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard, y tad McNamara, Gwynfor Jones am yr holl drefniadau ac i Gartref Preswyl Penisarwaunm, lle cafodd ofal tyner yn ystod ei harhosiad yno.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



Dilys Baylis wedi derbyn Tlws Rhaglen Deledu 'Diolch o Galon'. Fe gafodd Dilys ei henwebu gan Iona ac Andy, i ddiolch am ei gwaith o ysgrifennu a chyfieithu penillion iddynt ar hyd y blynnyddoedd.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCH i bawb am eu cwmni ar ddydd Sadwrn, 4 Hydref 2003 ym fy mharti pen-blwydd yn naw deg oed yn y Ganolfan, Hafan Elan, Llanrug.

Yn gyntaf diolch i'r teulu i gyd am drefnu a pharatoi'r parti.

I Mrs C McKinnon, Plastirion am wneud ac am ddod â'r bwyd ardderchog. Diolch hefyd i Llinos Parry am ei chymorth ac am ofalu fod popeth yn barod.

Ac yn fwyaf oll, diolch i fy ffrindiau i gyd am rannu yn yr hwyl, am y cardiau pen-blwydd, am y dymuniadau cynnes, yr anrhegion ac am y cofion. Fe fyddaf yn eu trysori am byth.

Diolch o fy nghalon i chwi oll. Megan Pritchard.

CYDYMDEIMLO. Estynnwn ein cydymdeimlad â Rhian Whiteside Thomas a'r teulu ar farwolaeth ei thad, yn dawel yn ei gartref yn Rhostryfan.

PEN-BLWYDD HAPUS. i Mrs Megan Pritchard, 3 Hafan Elan ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i chwi.

I Lorna Owen, Rhes Bryn Afon, Crawia ar ei phen-blwydd yn 50 oed.

I Wendy Jones, Stad Talybont, hithau hefyd yn 50 oed. Brysiwch wella hefyd, Wendy. Rydym yn deall eich bod wedi bod yn yr ysbyty.

LLONGYFARCHIADAU i Dylan Lloyd Jones, Bod Ellen, Ffordd yr Orsaf, ar ei ddywedd ag Enid, sy'n wyres i Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Dymunwn y gorau i chwi eich dau.

BRYSIWCH WELLA. Da yw deall fod Wyn Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Byddwch yn ymuno â'r cerddwyr 'rownd y bloc' yn fuan eto!

Mae Mrs Jennie Jones, Dinmore, Stad Bryn Moelyn wedi cael llawdriniaeth ac yn gwella yn araf. Hefyd, Mrs Joyce Jones, 7 Bryn Moelyn wedi cael llawdriniaeth eto yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Deallwn fod Mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, Ffordd Glanffynnon wedi cael damwain tra yn aros yng Nghaerdydd. Gobeithio eich bod wedi gwella.

LLONGYFARCHIADAU calonnog i Olwen Llywelyn a Phyllis Ellis ar gael eu hanrhydeddu yng Nghynhadledd Plaid Cymru yng Nghaerdydd ddydd Gwener, 19 Medi. Vn anffodus ni allai Olwen fod yn bresennol, ond derbyniodd Phyllis ar ei rhan dystysgrif hardd yn tystio i'w 'gwasanaeth hir a chlodiwr' i Blaid Cymru.

Cyflwynwyd y dystysgrifau gan Aelod Seneddol Geredigion, Simon Thomas, mewn seremonï hon flaen araith y Llywydd newydd, Dafydd Iwan. Mae'r ddwy wedi bod yn arbennig o weithgar yng nghangen Llanrug; bu Olwen yn Ysgrifennydd am tua ugain mlynedd, ac mae Phyllis wedi gwasanaethu fel Ysgrifennydd Pwyllgor Etholaeth Arfon am ddeng mlynedd ar hugain, yn ogystal â nifer o swyddi eraill yn lleol ac yn genedlaethol i Blaid Cymru. Ychydig yn derbyn yr

anrhydedd yma, ac mae cangen Llanrug yn hynod o falch o lwyddiant y ddwy.

DIOLCHIAU. Dymuna Emlyn a Kathleen Jones, 3 Ffordd Glanffynnon ddiolch yn arw i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am bob dymuniad da a dderbyniwyd yn dilyn eu damwain anffodus.

Hefyd, fe ddymuna Wyn Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes ddiolch o galon i bawb am y dymuniadau da, mewn ffurf galwadau personol, cardiau a galwadau ffôn yn dilyn ei lawdriniaeth yn yr ysbyty. Mae yn gwella yn dda, diolch yn fawr iawn. Dymuna Megan Jones, 56 Glanffynnon ddiolch i'w theulu a ffrindiau yn Llanrug a Llanberis a'r cylch am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniwyd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i bawb yn Ward Ffrancon a fu'n gweinyddu.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, 15 Hydref yn Sefydliad Coffa Llanrug, daeth Eurig Wyn, sy'n un o aelodau Plaid Cymru yn Senedd Ewrop, i annerch. Y Cadeirydd oedd Phyllis Ellis, a chyflwynodd y siaradwr fel yr unig un o aelodau Cymru yn y Senedd sy'n dod o'r gogledd. Rhoddodd Eurig adroddiad difyr am ei waith a'i gyfrifoldeb fel aelod o Bwyllgor Datblygu Gwledig y Senedd ac o'r Pwyllgor Addysg a Diwylliant, pwyllgorau o wir ddiddordeb i Gymru. Yn wyneb polisi'r Blaid ar annibyniaeth, diddorol oedd nodi mai gwledydd annibynnol fydd yn cael eu derbyn i Ewrop; fe ddylai Cymru hefyd gael yr hawl i ymuno â'r Cenhedloedd Unedig.

Cafwyd cwestiynau a thrafodaeth fywiog yn dilyn ei sgwrs. Diolch i Megan Roberts a Nan Humphreys am ofalu am y baned.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 19 Tachwedd pan geir sgwrs a phaned gyda phedwar o gynghorywr lleol ar Gyngor Gwynedd, sef Charles Wyn Jones, Pat Larsen, Len Jones a Huw Price Hughes. Bydd cyfle i bawb ddod â'u cwestiynau a'u cwynion i'r cynghorwyr, a chyfle hefyd i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu.

DIOLCHIAU. Hoffai Betty Roberts, Meifod ddiolch yn fawr i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y galwadau ffôn, cardiau, ymweliadau, blodau a'r arian dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac wedyn gartref.

DIOLCH ARBENNIG gan yr Eco i Mrs Jean Walsh, Hafan Elan, am ei gwasanaeth dros flynyddoedd maith, yn dosbarthu'r papur bro yn ardal Rhos Rug a Lôn Groes. Amser i roi eich traed i fyny rwan! Diolch yn fawr iawn a phob dymuniad da i chwi yn eich cartref newydd.

DYMUNA Albert a Carol, Tŷ Newydd, Ffordd Glanffynnon ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, cardiau a rhoddion a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeth Mrs Elizabeth Lynes, Fachwen, mam Albert a nain annwyl i Phillip ac Alex. Bu farw ar 26 Medi yn Ysbyty Gwynedd a chasglwyd £260 tuag at Ward Conwy er cof amdani.

Pencampwriaeth Rhedeg Mynydd Ola'r Tymor

Llwyddiant a siom fu hanes rhai o redwyr y fro yn Church Stretton, Swydd Amwythig ddiwedd mis Hydref. Dros gopaon a thrwy ddyffrynnoedd y Long Mynd y cynhaliwyd pencampwriaethau rاس cyfnewid ar fynydd eleni, ac er nad oes yr un copa uchel iawn, roedd y llethrau hynod o serth i'r dyffrynnoedd yn sicrhau cystadleuaeth galed iawn i bob rhedwr.

Roedd Clwb Rhedwyr Eryri wedi anfon pedwar tîm i'r pencampwriaethau: dau dîm agored, un tîm dynion hŷn ac un tîm merched. Roedd nifer o unigolion o fro'r 'Eco' yn cystadlu ym mhob un o'r timau.

Gyda phedwar cymal i'r ras, a chwech aelod i bob tîm, golygai gyfanswm rhedeg o bron i ddeg milltir ar hugain a dros ddeng mil o droedfeddi o ddringo. Roedd dau gymal byr o tua chwe milltir, un cymal canolig o naw milltir a chymal o ddarllen map â chwmpawd o tua wyth milltir. Parau o redwyr oedd yn rhedeg y ddau gymal mwyaf. Roedd cant a dau o dimau o bob rhan o Brydain yn cystadlu, a daeth tîm merched Eryri yn drydydd, gan

ennill y fedal efydd. Aelod o'r tîm hwnnw oedd Jayne Lloyd o Gaeathro a oedd newydd ddychwelyd o Alaska lle roedd yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth rhedeg mynydd y byd.

Roedd tîm dynion hŷn Eryri hefyd yn rhedeg yn dda, gyda Colin Donnelly o Ddinorwig yn cychwyn y cymal olaf yn y trydydd safle. Yn ystod y cymal olaf, daeth o fewn cyrraedd i'r rhedwr cyntaf, ond yna, dilynodd rai o redwyr olaf y trydydd cymal, colli'r ffordd - a cholli amser. Bu'r anffawd yn ddigon iddo ef a'r tîm orffen yn bumed.

Gyda Dylan Jones a Robin Halliday yn nhim agored y dynion, daeth Eryri yn nawfed mewn cystadleuaeth glòs iawn. Roedd y pedwerydd tîm yn ddeugeinfed, gyda Maggie Oliver, Phil Jones a Dafydd Thomas i gyd dros hanner cant oed, ac yn rhedeg y cymalau hir. Mae'r tymor rasio traws-gwlad eisoes wedi cychwyn, a'r tymor yn argoeli'n dda i rai o'r rhedwyr lleol. Yn ystod mis Tachwedd cynhelir ras boblogaidd Penmaenmawr - ras fynydd lleol olaf y flwyddyn.

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch 01286 672076

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

Ysgol Brynrefail

Staff Newydd

Croesawyd dau aelod newydd o staff i'n plith eleni. Mr Arwel Stephen i'r Adran Fathemateg, ei swydd gyntaf wedi iddo raddio o Brifysgol Bangor, a Mrs Sian Harris i'r Adran Addysg Gorfforol, wedi ei chyfnod yn Ysgol Tryfan, Bangor.

Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch a gobeithio y byddwch yn ymgartrefu ac yn hapus yn eich ysgol newydd.

Tîm Rygbi Bl.8 yn Ennill Tair Gêm

Cafwyd y gêm gyntaf gyffrous draw yn Llangefni. Dechreuodd Brynrefail yn gryf a daeth cais cynnar i Gethin Philips. Pan gosbwyd Llangefni yn agos i'w llinell, gwelwyd trafod da gan flaenwyr Brynrefail yn arwain at gais i Bedwyr Davies. Brwydrodd Llangefni yn ôl a sgorio dau gais. Gyda'r gêm yn llifo a thrafod da o'r bêl, croesodd Dylan Hughes i Frynrefail i adael y sgôr yn Llangefni 10 Brynrefail 15 ar yr hanner.

Cyfartal iawn oedd hi7 gydol yr ail hanner, gyda thaclo da yn rhwystro sawl symudiad. Rhoddodd cais Jamie Lewis fwy o fantais i Frynrefail ac yn ôl y daeth Llangefni â throsgais. Cafodd tîm Brynrefail 'ail wynt' a choronwyd eu buddugoliaeth gan gais hwyr gan Iwan Arwel wedi ei drosi gan Gethin Philips. Y sgôr oedd Llangefni 17 Brynrefail 27.

O gofio traddodiad Ysgol Friars, Bangor, roedd perfformiad Brynrefs yn wych yn yr ail gêm. Daeth tri chais i'r hogia yn yr hanner cyntaf oddi wrth Dylan Hughes, Gethin Philips a Jamie Lewis a throswyd gan Alex Lynes. 17-0 i Frynrefail ar yr hanner. Yn hydcrus, acth y tîm o north i north gan ychwanegu tri chais arall yn yr ail hanner - dau i Jamie Lewis ac un i Siôn Eifion - y tri wedi eu trosi gan Alex Lynes, i adael y sgôr yn Brynrefail 38 Friars 5.

Bodedern groesodd y bont i'n herio ni nesaf. Cyfartal iawn oedd yr hanner cyntaf gyda'r ddau bac am yddfau ei gilydd. Cais Bedwyr Davies, wedi ei drosi gan Alex Lynes, oedd yr unig sgôr. Brynrefail 7 Llangefni 0. Yn yr ail hanner gwelwyd rygbi safonol iawn yn dcillio o agwedd bositif i redeg y bêl. Daeth ceisiadau gan Dylan Hughes a Jamie Lewis (yn dilyn symudiad hyd y cae), Leon Radnor ac, yn olaf, Gethin Philips gyda chais unigol da. Daliodd Alex i drosi yn gelfydd i roi sgôr terfynol o Brynrefail 35 Bodedern 0, a chadw'n rhediad diguro i fynd.

Diolch i Bedwyr (80) a Rhys (8E) am yrradoddiadau

Gweithgareddau'r Wythnos Drawsgwricwlaidd



Dyma griw o Flwyddyn 9 a aeth i fynydda.



Wedi blino'n lân ac angen eistedd i lawr cyn cael bws yn ôl i'r ysgol.



Blwyddyn 7 yn mwynhau ar y traeth yn Llanddwyn.

Cymdeithas Golff Cyn-ddisgyblion ac Athrawon Ysgol Brynrefail

Cynhaliwyd y gystadleuach flynyddol yng Nghlwb Golff Caernarfon ar 29 Mehefin 2003. Cafwyd nifer go dda, 32, yn cystadlu, a'r enillwyr eleni oedd Arwel a Myrddin (Hogia'r Wyddfa). Gwelwyd llun o'r ddau gyda'r cwpan yn y rhifyn diwethaf yr Eco.

Hoffai'r ysgrifennydd ddiolch i noddwyr y raffl, Wavell Roberts, Llanrug; Beran, Bull a'r Wellington,

Deiniolen; Formag a'r Prince of Wales, Llanberis a llu o unigolion hefyd.

Bu Ann Lloyd ac Awen Forrestr Addie yn gefnogol iawn hefyd a mawr yw'r diolch am eu cefnogaeth yn ogystal â'r cystadleuwyr i gyd.

Derbyniodd yr ysgol sicc am £300 gan y Gymdeithas a mawr yw ein diolch am y swm anrhydeddus a'u cefnogaeth gyson.

Rygbi Bl.9

Chwaraeodd y tîm ddwy gêm yn ddiweddar, yn erbyn Llangefni ac Ysgol Friars, Bangor.

Yn erbyn y Monwysion, cafwyd hganner cyntaf cystadleuol gyda'r ddau bac benben â'i gilydd. Roedd amddiffyn Brynrefail yn fudan yn erbyn ton o ymosodiadau. Daeth cais i Llangefni ond, gan ddangos eu cymeriad, tarodd yr hogiau yn ôl gyda chais gan David Ngaia. Yn ôl y daeth Llangefni, a'u hail gais yn rhoi mantais iddynt o 10-5 ar yr hanner, gyda thaclo cadarn a rhedeg cryf. Daeth dau gais cynnar i Daniel Ngaia ac Owen Bracegirdle yn trosi, ac yna cais gwyh unigol o rediad David Cashman ar yr asgell. Roedd Brynrefail yn rheoli'r gêm erbyn hyn a chais olaf Daniel, eto wedi ei drosi gan Owen, yn rhoi sgôr terfynol o Llangefni 10-Brynrefail 24.

Yn anffodus colli fu ein hanes yn erbyn Friars, er ein bod wedi amddiffyn yn ddewr gydol y gêm. Nid oedd dau gais Daniel Jones, un wedi ei drosi gan Owen, yn ddigon a'r 'Bangor lads' enillodd o 31-12.

Diolch i Owen Bracegirdle(9S) am yr adroddiad

Gemau Pêl-rwyd blwyddyn 10

Brynrefail v Dyffryn Ogwen

Gêm gynta'r tymor gyda'r genethod yn chwarae'n dda ac yn cymryd mantais o ffitrwydd gwell na'u gwrthwynebwyr. Dechrau da i'r tymor, yn enwedig o gofio bod hanner y tîm yn aelodau newydd eleni. Diweddglo campus. Brynrefail 11 Dyffryn Ogwen 3.

Brynrefail v Friars

Ail gêm y tymor ac er i Frynrefail frwydro'n galed i ddal y gwrthwynebwyr i 2-2 yn yr hanner cyntaf, roedd Friars yn gryfach ac fe sgoriwyd 5 arall ganddynt cyn y chwiban olaf! Brynrefail 2 Friars 7.

Brynrefail v Ysgol Syr Hugh

Wedi'r siom o golli yn erbyn Friars roedd y tîm yn benderfynol o wncud yn well yn erbyn yr hen 'elynn', Syr Hugh.

Yn y chwarter cyntaf aeth Syr Hugh ar y blaen o 2-0 ond brwydrodd tîm Brynrefail yn ôl ac erbyn hanner amser roedd hi'n gyfartal, 2-2.

Trwy gydol yr ail hanner roedd yn frwydr galed rhwng y ddau dim gyda Brynrefs gam ar y blaen, cyn i'r llifddorau agor a gwneud y sgôr terfynol yn Brynrefail 9 Syr Hugh Owen 5.

Go dda genod! Cadwch i fynd trwy gydol y tymor gyda'r ysbryd. yma.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED Ymhlith gweithgareddau hydref y gangen bu cyfarfod Nos Lun Medi 15fed. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y llywydd, Pat Jones a chyflwynodd hefyd wraig wadd y noson sef Wendy Jones o Lanrug i arddangos torri a thrin gwallt. Partowyd lluniaeth gan Nerys Roberts, Jennie Hughes ac Alice Williams. Enillwyd gwobr y mis rhoddedig gan Verna Jones gan Gwenllian Edwards. Nos Lun Medi 22ain aeth nifer o'r aelodau i weld y ffilm 'Calendar Girls' i Sinema Amlsgrin Cyffordd Llandudno. Bu'r Cyngor Hydref yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Hydref 11eg gyda Bethan Jones Parry o'r Heddlu a'r Cyfryngau yn annerch y cyfarfod. Nos Lun Hydref 20fed cyfarfu'r aelodau yng Nghae Coch pryd y cafwyd arddangosfa o waith llaw Nadolig gydag amrywiol ddefnyddiau gan Jennie Roberts o Gaernarfon. Rhoddwyd y te gan Pat Jones. Alice Williams enillodd wobwr y mis, rhoddedig gan Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 17eg, sef y Cyfarfod Blyneddol.

COFION Anfonwn ein cofion at Mr Wilbert Williams, Marino a Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, y ddau ohonynt wedi bod yn ddiweddar dan archwiliad yn Ysbyty Gwynedd. YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos lau, Hydref 9fed. Hwn oedd cyfarfod olaf tymor a threuliwyd noson ddiddorol iawn i gloi gweithgareddau 2003. Y cadeirydd oedd Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir ac ef a groesawodd griw da o'r aelodau oedd wedi ymgynnull y tro hwn yn Archifdy Caernarfon. Arweiniwyd yr aelodau drwy'r noson gan Lynne Francis gyda'r aelodau yn cael eu rhannu yn ddau grŵp - un i ymweld â gwahanol ystafelloedd yr Archifdy tra roedd y gweddill yn cael golwg ar amrywiaeth helaeth o ddogfennau a chofnodion cyn cyfnewid. Daeth ambell aelod ar draws cofnodion personol diddorol dros ben wrth bori drwy newyddiaduron lleol o'r gorffennol a chanfyddwyd adroddiadau llawn am weithgareddau cymdeithasol ym Mrynrefail, fel yr Eisteddfod flynyddol - cofnodion yr *Herald Gymraeg* 1950. Diolchwyd yn

gynnes iawn am y trefniadau yn yr Archifdy â gair o wethfawrogiad am yr amser difyr a dreuliwyd gan y llywydd.

I gloi'r noson, mwynhaodd pawb luniaeth yng Nghaban y Cwm, Cwmyglo wedi ei baratoi gan Ann Emlyn Owen, Cyttir Bach. Cyn troi am adref, sicrhodd y llywydd fod y swyddogion presennol wedi eu hail-ethol ar gyfer 2004, gyda diolch i'r ysgrifenyddion, Gareth Llwyd Dafydd a Dwynwen Williams am drefnu cyfarfodydd rhagorol y tymor presennol.

CASGLIAD CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Casglwyd y swm o £78. Diolch i bawb am eu cyfraniadau ac i Mrs Jennie Roberts a Mrs Ifanwy Jones am ofalu am y casgliad, sydd wedi ei drosglwyddo i Drysorydd Cangen Deiniolen a'r Cylch o Gymdeithas y Beiblau.

YR WYL DDIOLOCHGARWCH. Fore Sul, Hydref 12fed gwasanaethwyd gan y Parch Gwynfor Williams, Caernarfon. Yn dilyn yn y prynhawn cafwyd oedfa o ddiolch dan nawdd yr aelodau. Yn dilyn cyflwyniad gan lywydd y cyfarfod, Lowri Roberts Williams, roedd gweddill y cyfarfod yng ngofal aelodau o'r gynulleidfa a'r ieuencid. Cymerwyd rhannau mewn darllen o'r Ysgrhythur, cyflwyniadau llafar, emynau a gweddiau gan Mair Wyn Davies, John McBryde, Verna Jones, Dafydd G. Ellis, Emyr Williams, Robert John Williams, Ifanwy Jones, Ieuan Long a Norman Williams. Cafwyd cyflwyniad o Foliant am Air Duw gan Rhian ac Anna George, Caryl ac Awen Jones ar lafar a chan. Anfonwyd cofion at Mr Wilbert Williams oedd ar y pryd yn Ysbyty Gwynedd a llongyfarchwyd aelod hynaf yr eglwys, Miss Blodwen Owen, 2 Tai Orwig, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 97 oed drannoeth.

OEDFAON TACHWEDD

- 2 Mr Islwyn Hughes, Llangoed am 10;
9 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel am 5.30;
16 Parch Dafydd Ll. Hughes am 5.30;
23 Parch Iorwerth Jones Owen am 5.30. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
30 Mr Norman Closs Parry, Treffynnon.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cawsom bawn difyr iawn ar ddydd lau, 2 Hydref yng nghwmni Mrs R. Holland o 'H & H Cosmetics', Caernarfon. Eglurodd Mrs Holland sut i ddewis y math iawn o golor, ac fe wnaeth arddangos, gyda Mrs Maureen Hughes fel model, sut i ddefnyddio'r gwahanol fathau. Diolchodd Mrs Pat Parry i Mrs Holland am bawn hwyliog iawn. Enillwyd y raffl, wedi ei roi gan Mrs Iris Evans, gan Mrs Maureen Hughes. Ar 6 Tachwedd cynhelir y Cyfarfod Blyneddol gyda Mrs Pat Parry fel Ymgynghorwr SYM.

CLWB 300. Dyma restr o'r enillwyr am fis Medi: £40: Mr Norman Williams, Lliidiart Wen; £25: Mrs Alice Johnstone, Tŷ Gwyn; £10: Janet Smith, Rhoslan.

LLWYDDIANT. Anfonwyd llun lolo Dafydd, Bryn Celyn i gystadleuaeth i fabanod gan bapur dyddiol y *Daily Post*. Derbyniodd gymaint o bleidleisiau fel y daeth i'r brig yn yr adran dan naw mis oed. Bydd y genod ar dy ôl di, lolo!

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Rol Williams, Ardwyn; John Gwynedd, Nant a Meira Turner, Collfryn adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd iddynt.

Croeso adref hefyd i Mrs Beti Hughes a fu am gyfnod yng nghartref preswyl Maesincla. Anfonwn ein cofion at Mrs Janet Smith, Rhoslan a Mr Dafydd Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

LLONGYFARCHIADAU

PRIODAS. Yn eglwys Betws Garmon, ar 18 Hydref, priodwyd Andrew a Rebecca, Tŷ Ucha'r Ffordd. Dymunwn yn dda i'r pâr ifanc yn eu cartref newydd yn y Waun.

Dymuniadau gorau hefyd i Meirion Williams, mab Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, ar ei briodas â Marian o Chwilog.

Anfonwn ein cofion at Miss Kate Roberts, sydd wedi mynd i aros i Gartref Preswyl Penisarwaun dros dro, er mwyn cael cryfhau.

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yng nghartref preswyl Plas y Bryn, Bontnewydd, bu farw Mrs Ray Hughes, Manchester House. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei theulu.

Cydymdeimlwn hefyd â mab a theulu Mrs Ovary, Pant Waun yn eu profedigaeth o golli Mam.

DIOLCH. Dymunaf ddiolch o galon

i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu hymweliadau â mi tra bŵm yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri. Diolch am y blodau a'r dymuniadau da.

Rwyf gartref erbyn hyn ac yn gwella.

Gan na allaf fynd o gwmpas i brynu cardiau y Nadolig hwn, dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb drwy gyfrwng yr Eco.

Diolch o galon, Anti Katie.

DYMUNA Mrs Nancy Williams, 2 Bro Waun ddiolch am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor yn y Ganolfan nos Lun, 13 Hydref a chafwyd noson hynod o ganmoladwy yng nghwmni Genod y Fro, tair o enethod ifanc, hynod amryddawn yn cyflwyno noson gerddorol, a'r farn gyffredinol oedd i ni gael noson gwerth chwell. Llywyddwyd gan Gwilym O. Williams ac ef hefyd a dalodd y diolchiadau.

Yn ystod mis Tachwedd bydd yr aelodau yn ymweld â Chymdeithas Capel Bwlan yn Llandwrog ar wahoddiad i ymuno mewn cwis.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan, nos Lun, 8 Rhagfyr pan estynnir croeso i Dyfed Evans, Pencaenewydd i draddodi darlith ar y gŵr y bu iddo gyhoeddi llyfr hynod ddiddan arno, sef y diweddar Bob Owen, Croesor. Llywyddir gan Rol Williams. Rhoddir ar ddeall fod Dyfed Evans, wedi blyneddodedd o ddarlithio i sawl cymdeithas ar hyd y wlad, yn bwriadu rhoi'r gorau i'r gwaith ddiwedd y flwyddyn, felly gobeithio y bydd cynulleidfa deilwng yn y Ganolfan i wrando arno ym mis Rhagfyr. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni gan fod rhaglen hynod ddifyr wedi ei threfnu ar gyfer y flwyddyn newydd.

YR YSGOL GYNRADD.

Gwaith Thema. Cyfnod yr ail ryfel byd yw thema disgyblion B1.5 a 6 y tymor hwn a dymunant ddiolch i Mrs Pat Parry o'r Waunfawr am ddod atynt un bore i sgwrsio gyda hwy am ei phrofiadau yn ystod y cyfnod.

Hefod cafodd y ddau ddosbarth brynhaun yng nghwmni yr awdures, Mrs Brenda Wyn Jones o Dregarth, pan ddaeth atynt i drafod ei nofel *Sais ydi o, Miss!* Diolchwyd iddi am roi o'i hamser i ddod i'r ysgol.

Dymuna disgyblion B1.2 ddiolch i bawb ym Mecws Bryngwyn am y croeso a gawsant yno ac am y 'tips' ar sut i bobi bara, cyn iddynt hwy a'u hathrawon roi cynnig arni. Rhaid dweud bod arogl arbennig o dda drwy'r ysgol pan oeddynt yn pobi a chrasu'r bara, ac fe fu hen fwyta y brechdannau ffres!

Cafodd plant y Dosbarth Meithrin a'r Dosbarth Derbyn dywydd perffaith i fynd ar eu hymwelid â Pharc Glynllifon. Yr haul yn disgleirio ar y coed yn eu lliwiau hydrefol a'r awel yn chwythu dail oddi arnynt. Diolch yn fawr i staff y Parc am eu croeso.

Rydym yn falch o weld Anti Margaret, y Swyddfa, yn ôl gyda ni wedi ei thriniaerth yn Ysbyty Gwynedd.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'statell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Mrs Nora Parry, Wilnor, ddiolch o galon i ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl ddymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Helen a Geraint Evans ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, arian a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ddiweddar yn yr UDA.

LLONGYFARCHIADAU a dymuniadau gorau i Nerys ac Evan Owen, Wern Las, Saron ar achlysur dathlu Priodas Aur oddi wrth y teulu, cymdogion a ffrindiau. Hefyd llongyfarchiadau i Aled Jones a'i wraig, Y Fachell ar enedigaeth Elis, brawd bach i Elan a Bedwyr.

EISTEDDFOD. Cynhelir yr Eisteddfod eleni at 8 Tachwedd gyda'r cyfarfod prynhawn yn cychwyn am 12.30 a'r nos am 6.00. Bydd cystadlaethau Dawnsio Disgo, Dawnsio Gwerin a'r Gân Gyfoes ar nos Fawrth, 4 Tachwedd, i gychwyn am 6.00. Dewch i gefnogi plant a phobl ifanc y pentref. Bydd gwledd yn eich disgwyl.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fercher, 8 Hydref yn Ysgol Bethel. Croesawyd pawb yno gan y Llywydd, Anita Owen, ac anfonodd gofion at ddwy o'r aelodau, sef Margaret Williams a Mary Evans. Cydymdeimlwyd ag Elisabeth Evans yn ei phrofedigaeth ddiweddar. Llongyfarchwyd Gwyneth Jones ar ddod yn nain unwaith eto a chroesawyd Dyfan, mab Anne Elis yn ôl i'w gynefin ar ôl ei daith i Awstralia.

Estynnwyd croeso cynnes i'r gŵr gwadd, Mr Dafydd Whiteside Thomas, sy'n diddori mewn hanes lleol. Cyflwynodd ei sgwrs. 'Melinau Afon Saint' trwy ddangos map o'u lleoliad ac egluro fod cofnodion amdanynt yn dyddio yn ôl i'r flwyddyn 1300. Mwynhaodd yr aelodau ei glywed yn olrhain hanes yr enw Cwawia a chael ar ddeall fod diwydiant gwneud llechi ysgrifennu wedi ei sefydlu yn un o'r melinau. Diolchwyd iddo gan Eirlys Williams. Rita, Gwyneth a Sian oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Eirlys Sharpe.

Y mis nesaf, bydd Helen Bradley yn dod atom i arddangos rhai o gynnyrch y Body Shop a bydd cyfle i'r aelodau brynu nwyddau.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd y clwb yn festrï Cysegr ar ddydd Mawrth, 7 Hydref. Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Dafydd Hughes. Cafwyd prynhawn diddorol, llawn hiwmor yn gwrando arno yn sôn am ei fagwraeth yn y Groeslon a'i flynyddoedd gyda'r heddlu yng Nghaernarfon.

Diolchodd y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams a Selwyn Griffiths ar ran yr aelodau i'r Parch Dafydd Hughes am brynhawn ardderchog.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyd gwobrau Medi oedd Andrea Pugh, 9 Tan y Buarth (79): £50; Nan Owen. Berwyn (141): £25; Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos (151): £10 ac enillwyd gwobrau

Hydref gan Owen M. Jones, Isfryn, Saron (138): £50; Mr a Mrs P.C. Hughes, Pen y Buarth (77) £25; Ynry Hughes, 31 Bro Eglwys (47): £10.

Diloch i bawb am eu cyfraniad. CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED. Enillwyd gwobrau Hydref oedd £100: Derfel Williams, Bethel; £50: Terry Cwm, USA; £25: Sheryl Hughes, Bae Colwyn; £25: Owain Machno Lloyd, Llanrug; ac £20 i'r dilynol: Michelle Johnson, Bethel; Aled Williams, Bethel; Hugh Morgan, Llanfairpwll; Gavin Roberts, Bethel; D.J. Ogden, Bae Colwyn; Mark Bennett, Bethel; Ann Hughes, Caernarfon; John Morgan, Bethel; Dylan Roberts., Bethel; J.G. Morgan, Talysarn.

I ymuno neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mr Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel (Ffôn 671469).

CYNGERDD CWMNI OPERA CYMRU. Bore Sadwrn, 1 Tachwedd yng Nghapel y Cysegr cynhelir cyngerdd gan aelodau o Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

NEWYDDION O'R YSGOL. Bu wythnosau cyntaf tymor yr hydref yn brysur iawn unwaith eto yn yr ysgol. Yn fuan wedi dechrau'r tymor bu Blwyddyn 6 yng Ngwersyll yr Urdd yng Nglanllyn am dri diwrnod. Roedd nifer o ysgolion y cylch yno ar yr un pryd a chafodd pawb lawer o hwyl yn cymdeithasu. Diolch i Mr Parry a Miss Nia Gwawr Jones am fynd hefo'r plant a dod a phawb adref yn saff.

Bu Blwyddyn 5 a 6 ac Adran y Babanod ar deithiau addysgol yn ystod hanner cyntaf y tymor. Taith hir i Eden Camp yn ymyl Efrog gafodd Bl.5 a 6 i ymweld ag Amgueddfa'r Ail Ryfel Byd. Cafodd y plant fudd mawr o'r ymweliad a dysgu llawer am y cyfnod. Diolch o galon i'r rhieni ddaeth i gynorthwyo'r athrawon i edrych ar ôl y plant. Taith ychydig yn nes adra i Gelli Gyffwrdd gafodd y babanod. Roedd y profiad o weld a theimlo byd natur yn atgyfnerthu eu gwaith ar y synhwyrau.

Llongyfarchiadau i enethod Bl.2 a berfformiodd y ddawns flodau yn Seremoni Cadeirio Eisteddfod Brynrefail mor arbennig o dda. Diolch i Mrs Williams am eu dysgu; i Mr Parry am gyfeilio ac i Mrs Owen am ofalu am y gwisgoedd.

Dathlwyd Gŵyl Diolchgarwech eleni yng nghwmni Mr Edward Morus-Jones, Llandegfan. Cafwyd bore hwyllog o ganu yn ei gwmni. Roedd casgliad y gwasanaeth tuag at Nyrsus Macmillan.

DYMUNA John, Elizabeth a'r teulu, Pen Parc, Bethel ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Mam-yng-nghyfraith, Nain a hen Nain annwyl iawn, sef Mrs Margaret E. Thomas, gynt o Bodlonddeb. Y Glyn, Caernarfon.

Diolch am y rhoddion hael tuag at Gronfa Meddygfa Bron Seiont, Caernarfon. Diolch arbennig i staff caredig Gartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Felinheli am eu gofal tyner o 'Nain Mawr'.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL CWM Y GLO

Mae'r ysgol yn ystod y flwyddyn aeth heibio wedi cychwyn ar y Cynllun ysgol yn Hybu Iechyd. Erbyn hyn mae'r cam cyntaf wedi ei gwblhau ac mae'r aseswr wedi cymeradwyo gwaith yr ysgol. Mrs. Jen Roberts oedd cyd-lynnydd y cynllun ac roedd pob dosbarth yn bwydo i mewn i'r gwahanol agweddau. Ymlaen a ni felly i'r ail gylch ac yn o fuan byddwn yn agor siop ffrwythau yn yr ysgol yng ngofal plant B1. 6.

Ers mis Medi, mae gan yr ysgol Wefan ei hun. Fe'i cynlluniwyd gan Mr. Michael Roberts o (gwmni Delwedd. Bydd y wefan yn cael ei lansio'n swyddogol ar nos Fercher, Tachwedd 12fed yng Nghaban y Cwm. Hoffem wahodd trigolion y pentref o bob oed yno i gael golwg ar yr arlwy a chael sgwrs a phaned yr un pryd. Ar www.ysgolcwmbyglo.org mae cyfnod cyffrous arall yn cychwyn.

Cawsom gyfie i wahodd dwy o nyrsus yr Awdurdod Iechyd i'r ysgol i ddangos fideo i'r rhieni ar sut i archwilio a gofalu am wallt eu plant.

Ar hyn o bryd mae Miss Elen Williams yn nosbarth y Babanod

bob dydd Mawrth a Miss Sarah Williams yno bob dydd lau a Gwener. Mae'r ddwy yn fyfyrwyr yng Ngholeg Menai. Croeso iddynt atom.

Mae cyfarfodydd Campau'r Ddraig wedi cychwyn ar ôl yr ysgol ar ddydd Mercher. Cynhelir y gweithgareddau bob yn ail â chyfarfodydd yr Urdd. Mrs. Nia Oliver a Mrs Jen Roberts sy'n rhedeg y Clwb.

Aeth gwobrau Clwb yr ysgol ddiwedd Awst i Mrs. Esme Jones, 24 Dolafon; Mr. Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug a Mrs. Sioned Jones, Isfryn, Cwm y Glo. Pobl lwcus ddiwedd mis Medi oedd Mr. Keith Williams, Bryn, Cwm y Glo; Mrs. Esme Jones, 24 Dolafon, Cwm y Glo a Miss Carys Williams, 7 New Street, Cwm y Glo.

Bydd Pwyllgor y Gymdeithas Rhieni / Athrawon yn trefnu Bingo Nadolig yn yr ysgol ar nos Fercher; Rhagfyr 17eg. Cewch fwy o fanylion yn nes i'r dyddiad.

Rydym yn bwriadu llenwi bocsus esgidiau eto ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig a'u hanfon i blant bach sydd yn dal i ddioddef o effeithiau gormes a thrais.. Os oes gennych unrhyw fân nwyddau glân a newydd nad ydych mo'u hangen, byddwn yn falch iawn o'u derbyn i lenwi'r bocsus. Hwyrach y byddai'n well gennych anfon papur lapio Nadoligaidd neu anfon arian ar gyfer cludiant - sydd oddeutu £2 y boc. Bydd plant Bl. 5 a 6 yng ngofal yr ymgyrch yn yr ysgol. Diolch i chwi ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

DIOLCHIDAU. Dymuna Arwyn Jones, Isfryn, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Rhaghysbysiad

Cyngerdd Nadolig Côr Eryri

yng nghwmni

Parti Clychau'r Grug
Gwenan Gibbard
a gwesteion eraill

yng

Nghapel Cysegr, Bethel
nos Sul, 14 Rhagfyr am 6.00

Elw tuag at Tŷ Gobaith

Croeso cynnes i bawb

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Folly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru.
o Audi i Zastava



website: www.a-v-w.co.uk



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** i'chwi
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN



RYGARUG

Cychwynodd tymor newydd Rygarug yn hynod o lwyddiannus gyda bron i 150 o aelodau yn cofrestru ar gyfer 15 gwahanol ddosbarth yn Llanberis, Llanrug a Deiniolen. Trefnwyd tair noson agored ar gyfer y cofrestru lle cafodd cyn-aelodau gyfle i flasgu uchafbwyntiau sioe llynedd, 'Digon Teg!' Yn Neiniolen ar y 3ydd o Hydref cyflwynodd Carys Williams siec ar ran Mantell Gwynedd i Dyfan Roberts (Cadeirydd Rygarug). Hwn oedd y taliad cyntaf o'r grant a enillodd Rygarug gan Mantell Gwynedd ar gyfer cynhyrchu sioe lwyfan wreiddiol. Mae Mair Tomos Ifans a Sian Wheway yn brysur yn ysgrifennu a chyfansoddi a daw'r cwbl i'r llwyfan ar ddiwedd gwyliau'r Pasg 2004.

Mae'r sesiynau yn ysgol Dolbadarn, Llanberis ar nos Fawrth yn newydd sbon, gyda Julie Ward yn dysgu sgiliau coluro a Lleucu Evans yn hyfforddi dawn. Braf oedd gweld 16 o blant y pentref yn bresennol ar y noson gyntaf. Daliwch i ddod!

Yn Llanrug mae bron i 50 o aelodau wedi ymuno â'r Côr dan arweinyddiaeth Gwenda Griffiths o Waunfawr. Mae Gwenda eisoes yn adnabyddus yn y fro fel arweinyddes Côr y Waun, sy'n perfformio mewn cyngherddau a nosweithiau llawen yn gyson yn Arfon a Phen Llŷn. Hefyd yn Llanrug ar nos Fercher gwelwyd y nifer fwyaf erioed yn cofrestru ar gyfer y dosbarthiadau Drama - newyddion calonogol i gynhyrchwyr teledu'r dyfodol!

Creu gwefan yw nod y sesiynau

Aml-gyfrwng am y tymor hwn. Gyda chymorth Mike Roberts o gwmni Delwedd yn Bethel bydd cyfle i'r aelodau gynllunio, creu a lawnsio safle we Rygarug. Mae amserlen y gwaith i'w gweld ar www.rygarug.org ar hyn o bryd a bydd y safle wedi'i gwblhau cyn y Nadolig. Bydd y wefan yn llawn o wybodaeth, lluniau a chysylltiadau difyr.

Unwaith eto mae'n bleser cael dweud bod y gefnogaeth i'r sesiynau yn Neiniolen wedi bod yn gryf iawn. Dan ofal un o ferched ifanc y pentref, Rachel Ward, mae bron i 25 wedi cofrestru am y dosbarth dawn yn Nhŷ Elidir ar nos Iau. Oherwydd y galw mae sefydlu dosbarth dawn uwchradd yn Neiniolen ar y gweill gyda'r aelodau'n awyddus i gystadlu ar y dawnio disgo yn Eisteddfod yr Urdd yn Llangefni.

Mae 'na hwyl i gael yn y dosbarth Sgriptio hefyd eleni gyda Haf Roberts a'i chriw yn brysur yn creu cymeriadau ar gyfer opera sebon Rygarug. Ar ôl y Nadolig bydd y sgriptwyr yn cael cyfle i chwarae'r cymeriadau y maent wedi eu creu a bydd y criw aml-gyfrwng yn eu ffilmio! Hwyrach y gwelir ambell glip o'r gwaith ar y wefan.

Felly pob hwyl dros y flwyddyn i ddod i holl aelodau a thiworiaid Rygarug, sydd bellach yn hanu o gyleh sy'n ymestyn o Dinas i Rhiwlas ac o Nant Peris i Gaernarfon. Os hoffech chi wybodaeth am weithgareddau Rygarug cysylltwch â'r trefnydd, Audra Roberts, ar post@rygarug.org neu 01286 675766.



Julie Ward yn dysgu sgiliau coluro.



Carys Williams yn cyflwyno siec ar ran Mantell Gwynedd i Dyfan Roberts (Cadeirydd Rygarug).

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

H. E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



MENTER ARDAL Y LLECHEN

CWMNI ADWY CYF

GWEDD II

Os am sefydlu, ail-licoli, neu changu eich busnes yn Ardal y Llechen (Dyffrynoedd Ogwen, Peris, Nantlle, Ffestiniog neu Corris) dyma eich cyfle i gymryd mantais o'r cynllun yma.

Gyda 31 o unedau busnes eisoes wedi eu creu, mae Gwedd II am ddarparu:

- Mwy o unedau o safon dda
- Mynediad gwell i gymorth a chynngor busnes
- Gwelliannau amgylcheddol yn y canolfannau masnachol

Mac Adwy yn awyddus i ymateb i'ch anghenion, felly:

- Gadewch i ni wybod y math a lleoliad yr uned(au) yr ydych ei angen
- Cysylltwch gyda ni am wybodaeth bellach ar ble i dderbyn cefnogaeth a chynngor busnes

Cysylltwch a:

Cwmni Adwy Cyf
c/o 3 Stryd Y Plas

Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR

Tel: 01286 678221

e-bost: cwmniadwy@hotmail.com





Ar Ben Arall y Lein

Tydi'r amser yn hedfan, tymor arall wedi mynd heibio, a doedd o ddim yn un arbennig cyn belled a roedd 'sgota yn y cwestiwn, ond un ardderchog i dorheulo.

Mawr oedd y disgwyl eleni ar yr holl waith sydd wedi bod yn mynd ymlaen dros y blynyddoedd diwethaf i wella ansawdd y Seiont, adnewyddu'r cynefinoedd a stocio eog a sewin. Roedd yn angenrheidiol i weld gwellhad sylweddol neu mi fuasai'n rhaid cwestiynu'r holl strategaeth. Wrth gwrs nid yw haul tanbaid yn cydreddeg â physgota llwyddiannus, ond er gwaethaf hyn mae arwyddion pendant fod pethau ar dro yn sylweddol am y goreu.

Rocdd nifer fawr o eog a sewin i'w gweld yn nyfroedd y Fenai, rhwng 'Pier Esso', Caernarfon ac aber y Seiont. Pysgod yr afon yw'r rhain meddai rhai o hen rwydwyg eog y dref. Fel rhagbrawf o hyn yn nechrau Awst fe ddaliwyd nifer dda o sewin yn nhalgylch Cawia. Dyma'r tro cyntaf i nifer go dda cael ei glanio yma ers bron i ddeng mlynedd.

Clifford Thomas o'r Felinheli ddaeth allan fel pen genwair yn ôl y sibrydion, ond John Fraser Williams, nawr o Gaernarfon, sydd gyda'r sewin trymaf - 4 pwys - eto o Cawia.

Ar ôl hir ymaros cafwyd tipyn o law yn ystod yr ail wythnos o Fedi, llif a gafodd ei lyncu gan y ddaear sychedig. Ymhen wythnos daeth cryn law eto ac yn ystod y dyddiau yma fe gafwyd rheddiad dda o cogiaid. Docdd dim ar feddwl rhain ond nofio cyn gynted â phosib i'r Marddwr a Llyn Padarn. Bu cryn 'sgota yn ystod y dyddiau yma gyda maes parcio Cawia yn gorlifo â seir. Wrth gwrs, mae 'sgotwyr crefftus a 'sgotwyr lwcus; dyma'r rhai lwcus felly: John Penny,

Waunfawr gydag un bron yn bymtheg pwys o Lyn Engan; Carl Hasson, Caernarfon, hefo un am bymtheg pwys o Caeau 'Rafon; John Edwards, Llanrug, un am 11 pwys; John Thomas, Felinheli, un am 10 pwys a Dave Spencer, Llandudno, un 10 pwys - y tri o Lyn Harri Parri. Malcolm Owen, Caernarfon un am 10 pwys, a Tony Brown, Waunfawr gyda dau am 9 ac 8 pwys - rhain o Glan Gwna. Stephen Carr un am 5 pwys o Lyn Doctor.

Mae'n debyg mai dyma'r holl gyfanswm am eleni gan ei bod nawr eto wedi troi'n sych ar genweiri'n segur eto ar ddechrau Hydref.

Gan fod cyn gymaint o gyfleon gyda'r enwair wedi diflannu oherwydd y tywydd, mae hyn ar y llaw arall wedi troi'n fendith cyn belled ac mae cynnal a gwella'r cyfleusterau yn y cwestiwn. Nid yw'n bosib canmol digon ar yr aelodau perthnasol ar y gwaith sydd wedi ei wneud i godi pontydd, camfeydd, torri coed, creu llwybrau, atgyweirio pyllau, gosod meinciau a chreu mannau i'r anabl fedru mynd at yr afon. Diolch i bawb sydd ynghlwm â'r gwaith yma. Yn enwedig perchnogion tir sydd mor hael ei cydnabyddiaeth at waith y clwb.

Ar y Llyfni, gwelwyd jeti newydd ar Lyn Nantlle yn cael ei adeiladu yn ogystal â ffordd a maes parcio newydd. Hefyd ffordd newydd o Bontllyfni i Lan y Môr.

Yn ystod Awst fe gynhaliwyd, drwy gymorth Asiantaeth yr Amgylchedd, dair noson o hyfforddi pysgota plu ar Lyn Nantlle ac roedd yr ymateb unwaith eto yn ysgubol. dyma lwybyr y dylai'r awdurdodau sy'n gyfrifol am reoli pysgota roi mwy o bwyslais arno a gwneud yn sicr fod arian ar gael i gynnal gweithgareddau o'r math yn rholaidd drwy'r

flwyddyn. Maent yn gallu gwario ar bethau llawer mwy di-bwys, gyda dim dilyniant na chanlyniad i'w weld am yr holl arian. Yma mae'n hollol wahanol, ple fuasai'n well gweld ein bobl ifanc, yn pysgota neu'n cerdded strydoedd? Diolch i'r aelodau a fu'n trefnu a chynnal y sesiynau yma.

Llongyfarchiadau i ddau aelod o'r gymdeithas, sef Trefor Jones, Nebo a Harri Wyn Owen, Talysarn, a fu'n cynrychioli Cymru yn y gystadleuaeth ryngwladol yn Ynys Islay yn ddiweddar.

HUW PRICE HUGHES


Brian a Rita
Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



Silver
STAR

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED

Wyth o blant bach siriol a hapus a ddechreuodd o'r newydd yn yr ysgol ar ddechrau'r tymor presennol. Mae'n braf iawn cael eu cwmni a gobeithio y bydd pob un ohonynt yn mwynhau yr amser sydd o'u blaenau yn yr ysgol, gan gychwyn yn nosbarth Mrs Carol Jones a Miss Rhian Roberts.

Yn ddiweddar, cymerodd parti bach o blant ran yng Nghymanfa Ganu'r pentref, wedi cael eu hyfforddi gan Mrs Einir Humphreys. Deallwn i'r Gymanfa fod yn un lwyddiannus iawn.

Fel rhan o'u thema am Deganau, fe ddaeth ymwelydd o'r Archifdy i weld plant y Babanod, gan ddangos hen deganau iddynt. Cofiwch chi, roedd rhai o'r staff wedi bod yn chwarae gyda theganau o'r fath eu hunain pan yn fach - heb enwi neb!

Erbyn hyn mae dwy athrawes o'r ysgol ar absenoldeb mamolaeth, sef Mrs Jên Morris a Mrs Einir Humphreys. Edrychwn ymlaen i glywed eich newyddion da ac i gymryd rhan yn y dathlu. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch oddi wrth pawb yn yr ysgol.

EISTEDDFOD BENTREF

Cynhelir yr Eisteddfod yn y Neuadd Gymuned ar Sadwrn, 15 Tachwedd, i gychwyn am 2.00 o'r gloch. Atgoffir chwi i anfon eich copïau Hunan Ddewisiad, Adrodd i'r Ysgrifennydd, Elizabeth Woodcock erbyn 15 Tachwedd. Gwaith Coginio a Gwaith Llaw i'w hanfon i'r Neuadd Gymuned erbyn 3.30pm dydd Llun, 10 Tachwedd. Y mae prysurdeb mawr ar nosweithiau'r ymarfer, sef nos Lun a Mercher a gobeithio y ceir Eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

URDD BENTREF. Bydd yr Adran yn cychwyn ei gweithgareddau nos Fercher, ar ôl yr Eisteddfod.

PRIODAS RUDDDEM.

Llongyfarchiadau i Glenys a Ken Williams, Trem Cynfi ar achlysur eu Priodas Ruddem ar 21 Medi. Dymunant ddiolch i'r teulu, gymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r rhoddion lu.

CYFEILLION YR HENOED. Cynhelir Noson Bingo, nos Wener, 7 Tachwedd am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Croeso cynnes i bawb.

5 Rhagfyr cynhelir Ffair Nadolig am 6.30 a bydd yr elw yn mynd tuag at Gynio Nadolig yr Henoed ar 13 Rhagfyr yng Ngwesty'r Buckley, Biwmaris. Bydd cyfle wedyn i siopa yn Pringles.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Anfonir cyfarchion am ben-blwydd hapus arbennig i Mrs Catherine Williams, 20 Bryntirion. Gobeithio y cewch ddiwrnod hapus.

PWYLLGOR NEUADD. Enillwyr Clwb Cant Hydref oedd Victor Jones, 11 Bryntirion; Wyn Griffiths, Tai Arthur; Robin Griffiths, Groeslon Isaf.

Fel mae'n hysbys i fwyafriaf o bobl Penisarwaun, codwyd swm sylweddol o arian er mwyn i'r pentref gael Neuadd, Ystafell Gymuned a Chegin fach. Ein prif ffynhonnell i godi arian oedd, ac ydyw, y Clwb Cant. Yn anffodus mae gostyngiad yn rhif yr aelodau am nifer o resymau. Y mae angen swm sylweddol i'r Cyngor Sir - tâl am olau, gwresogi, glanhau, cynnal a chadw, treth, treth dŵr, yswiriant ac agor a chau'r ysgol gyda'r nos. Felly erfynnir arnoch i ailymaelodi os ydych wedi anghofio, neu os ydych yn newydd yn y pentref. Mae eich cefnogaeth yn dra phwysig gan fod defnydd da iawn o'r Neuadd i'n hieuencitid ac amrywiol weithgareddau.

I ymuno â'r Clwb Cant, gallwch dderbyn ffurflen Archeb Banc gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor neu'r Trysorydd, Dafydd Williams, (Ffôn 871754). Caiff eich rhif ei gwblhau ac fe anfonir eich archeb i'r banc ar eich rhan; siec yn daladwy i Bwyllgor Neuadd Penisarwaun am y swm o £6 y flwyddyn. Diolchir i chwi am eich cefnogaeth.

Y mae defnydd mawr o'r Hysbysfwrdd ger giât yr ysgol. Y mae pawb yn gallu gweld yr hysbysebion yn glir rwan.

Cynhelir Ocsiwn Addewidion nos Wener, 28 Tachwedd am 6.30. Gofynnir yn garedig am unrhyw addewid at yr Ocsiwn. Y mae nifer o fusnesau lleol ac unigolion eisoes wedi cyfrannu ac rydym yn dra diolchgar. Gobeithiwn gael eitemau gan blant y pentref wedi eu llywyddiannau yn yr Eisteddfod Bentref.

YSGOL SUL BOSRA. Croesawyd Cerin a Celyth atom i'r Ysgol Sul ac mae'n hyfryd gweld tua 20 o blant yn dod bob bore Sul.

Fore Sul, 5 Hydref aeth pawb i'r Ystafell Gymuned yn yr ysgol i fwynhau gwneud gwaith llaw ar gyfer y Diolchgarwch. Roedd pawb wrth eu bodd yn paentio a lliwio a gludo a chreu plât llwgar o ffrwythau y Cynhaeaf. Y mae egwyl bach dros y gwylliau a gobeithio y bydd pawb yn yr Ysgol Sul ar 9 Tachwedd.

Darlenn Noddedig. Bydd plant Bosra yn ymuno â phlant Ysgol Sul Undebol Ebeneser, Deiniolen

ar fore Sul, 23 Tachwedd i godi arian i Gymorth Cristnogol. Bydd cyfle i ganu, gwyllo fideo a darllen unrhyw lyfr ysgrythurol o'ch dewis. Yna bydd cyfle i gymdeithasu a chael diod a bisgedi. Gofynnir yn garedig ar i chwi rieni a'r teuluoedd eu noddi ar gyfer y fenter hollbwysig hon.

EGLWYS SANTES HELEN.

Bnawn Sul, 30 Tachwedd cynhelir gwibdaith i'n gefaill blwyf ym Mae Cemaïs. Bydd manylion pellach yn y wasg leol. Os oes diddordeb gennych anfonwch eich enw i'r Wardeniaid erbyn 20 Tachwedd.

CARNIFAL. Cafwyd diwrnod arbennig o braf gyda'r orymdaith yn cychwyn o'r Cartref Nyrsio drwy'r pentref i gae yr ysgol, lle'r oedd stondinau bric a brac, cacenau, tombola, twba lwcus, raffl, trade crafts, gemau, sêl cist car a phabell gêm laser.

Diolch i bawb a gymerodd ran yng nghystadlaethau y Carnifal, i gyd wedi bod yn brysus yn darparu y gwisgoedd arbennig o dda. Diolch hefyd i Mrs Ann Roberts o Lanberis a'r Parchedig Ann Smitham am y gwaith anodd o feirniadu; i Mr Arwel Jones am arwain ac i bawb a ddaeth i gefnogi yr holl weithgareddau ac i'r rhai a gyfrannodd anrhegion ac arian tuag at y gwobrau.

Ar ddiwedd y carnifal cafwyd hwyl gyda chystadleuaeth tynnu rhaff.

Dyma'r enillwyr:

Addurno Het: Bo Peep - Sophie Hughes; Queen of Tarts - Glesni Jones; Gwrach - Katie Lewis. Addurno Pram: Coed - Glesni Jones.

Unrhyw bâr dan 12 oed: Bryn Coch - Anest Bryn a Bethan Mai a Bryn Coch - Ifan Huw a Sion Dafydd.



Unrhyw bâr dros 12 oed: Big is Beautiful - Jean Jones a Janet Jones; 118 118 - Llyr Hughes a Jenny Harmer.



Wally a Mr Picton - John Eifion a David Phillips.

Dan oed ysgol: Jasmine - Magi Tudur; Morwyn briodas - Celyth Green; Blues Clues - Moi Tudur a Ballerina - Natalie Lovelock.

Blwyddyn 0: Cinderella - Sioned Gayther; Guitar - Catlin Lamb; Bo Peep - Sophie Hughes a Mermaid - Hannah Thomas.

Blwyddyn 1 a 2: Gypsy - Tania Lynne Jones; American Footballer - William Lamb; Robin Hood - Cai Glyn Oliver.

Blwyddyn 3 a 4: Incredible Hulk - Nathan Hughes; Avril - Alisha Jones; Brenin Arthur - Thomas Henri Evans.

Blwyddyn 5 a 6: Posh Spice - Bethan Heledd Gaffy; Blodeuwedd - Megan Glyn; Decorator - Elin Prysor.

Uwchradd hyd at 15 oed: Aelod o dîm Bryn Coch - Bethan Mai Williams; Sandra o Bryn Coch - Lois Eifion.

Dros 15 oed: Dumbledore - Mr H. Salisbury; Europe - Mrs Roberts Griffith; Tour de France - Mrs Ann Paterson.



(Parhad ar dudalen 16)

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cych)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Fframio Gwasanaeth Fframio Llundain

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth - Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

PENISADFWAUN

(Parhad o dudalen 15)

Unrhyw grŵp: Bryn Coch – Teulu David Phillips a Teulu John Eifion. Enillydd y Darian – y gorau yn y Carnifal oedd Incredible Hulk: Nathan Hughes.



Enillydd enwi'r llyffant oedd Helena Johnson.

Dyma enillwyr raffl y Carnifal (gwobrau oedd Cinio i ddau; Tegan meddal; Rug; Gwin; Siocledi; Hamper o fwyd; Tocyn anrheg; Chwisgi; Llestri te a llawer o nwyddau eraill.

Selwyn Griffith; Reginald Jones; Janice Lamerick; Selwyn Griffith; Emily Jones; Dewi Jones; Carys; Amanda; Mrs Dilys Jones; Paula; Clifford Williams; 870866; 671254; 871512; 673968; Sioned Alys; 671967; Ellen; Mrs Nell Williams; Selwyn Griffith; Delyth Williams 16 Medi bu Gyrfa Chwist.

19 Medi bu Dawnsio Gwerin – noson hwyliog ac egniol o ddawnsio dan ofal Mrs Judith Harding.

23 Medi bu'r Gymanfa Ganu.

I gloi y gweithgareddau cafwyd Cymanfa Ganu yn yr Eglwys yng nghwmni Cŵr Cofnod, arweinydd Mr Gethin Owain Davies, cyfeillydd Ceri Wyn Williams ac eitemau gan blant Ysgol Gynradd Penisarwaun. Arweinydd y canu

oedd Mr Arwyn Morgan, cyfeillydd Mr Cyril Williams. Arweinydd y noson oedd y Parchedig Ann Smitham.

Dyma enillwyr y mabolgampau:

Rhedeg

Dan oed ysgol: Lois ac Anna; Natalie; Celyth.

Blwyddyn Derbyn: Gwydion; Caitlin.

Bl 1 a 2: Cai; Cerin; Ceri.

Bl 3 a 4: Elen; Thomas; Harri.

Bl 5 a 6: Taliesyn; Kieran; Catrin Jarvis.

Bl 7, 8 a 9: Gethin; David; Llyr.

Bl 10: Paula; Eurgain; Huw.

Ras Sach

Dan oed ysgol: Annia a Catrin; Jordan.

Blwyddyn Derbyn: Gwydion; Jordan; Caitlin.

Bl 1 a 2: Cerin; Cai; Ceri.

Bl 3 a 4: Sophie; Thomas; Ellen a Claire.

Bl 5 a 6: Leanne; Kieran; Catrin Jarvis.

Bl 7, 8 a 9: Gethin; Llyr; Dion.

Bl 10: Paula; Allison; Huw.

Ras Wy ar Lwy

Dan oed ysgol: Annia; Celyth; Amie.

Blwyddyn Derbyn: Caitlin; Gwydion.

Bl 1 a 2: Tania; Cerin; Sion Jarvis a Joe.

Bl 3 a 4: Thomas; Sean Powell; Glesni.

Bl 5 a 6: Marc; Leanne; Gavin.

Bl 7, 8 a 9: Gethin; Dion; Llyr.

Bl 10: Paula; Allison; Huw.

Ras Gyfnewid

Plant iau: Tîm Leanne, Anna, Catrin a Katie; Tîm Glesni, Sophie, Elen a Catrin Heledd.

Bl 10: Gethin, David, Gavin a Luke; Huw, David Phillips a Wil; Paula, Allison, Ruth ac Eurgain.

PLYGU'R ECO. Yr hysbyseb cyntaf i'w arddangos ar yr Hysbysfwrdd wrth giât yr ysgol oedd erfyniad am wirfoddolwyr i roi dwyau'r Eco. Diolchir i'r criw ffyddlon, ynghyd â rhai newydd a nifer o blant, a ddaeth i weithio'n ddiwyd gan gwblhau'r plygu erbyn

7.15pm. Diolch o galon.

Diolchir i Bedwyr am fynd i nôl yr Eco o'r wasg. Ein diolch hefyd i swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd a hynny ers blynnyddoedd bellach.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

LLYFRAU AELWYN ROBERTS

<i>Holy Ghostbuster</i>	£8.99 P+P RHAD
<i>Yesterday's People</i>	£8.99 P+P RHAD
<i>Pobol Ddoo (Cyfeithiad)</i>	£4.25 P+P RHAD
<i>Quiver of Guides...</i>	£7.95 P+P RHAD
<i>Privies of Wales</i>	£3.99 P+P RHAD
<i>Operation Woosack</i>	£5.00 P+P RHAD
(Cymro oedd Shakespeare!)	

Sieciau ac archebion: **Tegai Publishing, Haulfre/Vicarage Llandygai, Bangor LL57 4LA**



Tîm pêl droed dan 7 oed Llanberis yn gwisgo'r dillad newydd a gyflwynwyd iddynt gan siop trin gwallt 'Gwalltgo'. Mae'r plant a'u hyfforddwyr yn ddiolchgar i berchnogion Gwalltgo, Dilys a Rhian, am y dillad. Diolch hefyd i Kevin a Catrin, o fwyty'r 'Caban', am eu rhodd hwythau o £100 i roi dechrau da i'r tîm; ac i Ken Jones a phwyllgor y Ganolfan am y peli troed a gafwyd yn rhodd.

JOHN PRITCHARD



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: (01286) 879064 • Symudol: 07810736482

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

Pryd i Bawb

Bawffe blasus o safon at bob achlysur

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Ples Torion, Llanrug, Carmarthen, Gwynedd LL55 4PQ

(01286) 673190



E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

AGOR CANOLFAN Y CAPEL. Roedd yr adeilad o dan ei sang gyda chadeiriau ychwanegol yn eu lle ar gyfer yr agoriad swyddogol, dan arweiniad y Parch Gareth Maelor. Ar ôl croeso gan Ifor Hughes, darllenodd Dewi Jones yr emyn cyntaf. Wedyn cafwyd cân gan blant yr Ysgol Sul: Osian, Hywel, Betsan, Elin, Katie, Alis, Lowri, Bethany, Megan, Llŷr, Gwion a Jonathan yn swynol i'r glust. Canodd genod y pentref: Arian, Mari, Sasha, Gwyneth a Donna 'Salm y Glasgoed' ac arweiniad mewn gweddi oedd cyfrifoldeb dwy o famau ifanc y pentref, Iona Ceiriog a Gwenno Bebb.

Yn ei anerchiad ysbrydoledig rhoddodd y Parch Gareth Maelor y ffydd Gristnogol yng nghanol y gymuned fel sail ar gyfer y cenedlaethau a fydd yn dilyn a'r Ganolfan yn y capel. Wedyn canodd Dafydd Iwan 'Dyn oedd yr Iesu'.

Cyfrifoldeb Ifor Hughes oedd cronicle hanes yr adfywiad yng Nghaeathro a diolch yr unigolion a oedd y tu ôl i'r trawsnewidiad. Hefyd bu diolch i'r sawl a oedd wedi cyfrannu at y costau sylweddol: Bwrdd Eiddo Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Cronfa Neuaddau Pentref Cyngor Gwynedd, Cronfa Amgylchedd Hansen, Cymdeithasfa'r Gogledd (benthyciad i'w ad-dalu), Henaduriaeth Arfon, Cyngor Cymuned y Waunfawr, Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, Ymddiriedolaeth Lloyds TSB, Cronfa Difidion y 'Co-op', rhoddion niferus eraill a nifer fawr o ddigwyddiadau codi arian (a mwy i ddod). Darllenodd Deiniol Huws emyn Williams Prysgol - 'Calfaria', cyn i bawb gael gwledd o fwyd, a baratowyd gan aelodau Clwb y Merched.

LOBSCOWS A GWIN. Bydd noson 'Lobscows a Gwin' yng Ngharrog, Rhos-bach am 7.30 nos iau, 6 Tachwedd. Tocynnau £5 ar gael gan Deiniol Huws, Ty Mawr (672998) neu aelodau eraill y Pwyllgor Codi Arian. Croeso i bawb - yr elw at ddyled y Ganolfan.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Tachwedd:

2: 2.00 Parch Trefor Jones;
9: 11.00 Ysgol Sul;
5.30 Parch Hugh John Hughes;
16: 11.00 Ysgol Sul;
23: 11.00 Ysgol Sul;
2.00 Parch Iorwerth Jones Owen;
30: 11.00 Ysgol Sul.

SYMUD TY. Croeso i Sharon a Jason i'w cartref newydd, 4 Tai Glan Gwna, hefo Shannon.

TAFARN BRYN GWNA. Croeso i Tony a Sue Griffiths fel landlordiaid newydd ac i Danny a Kelly - taith bell o Dai Glangwna! Pob lwc i Valerie Bee a'r hogiau yn ôl yn Llanllyfni.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Hydref oedd:

£40: (73): Deiniol a Marian Huws, Ty Mawr; £25 (92): Vernon Jones, Llain Meddygon; £15 (29): Hywel Evans, Rhyddallt Ganol; £5 (26): Jean Williams. Lletv.

RASUS ANTUR. Mewn amser o 15 awr, 56 munud a 2 eiliad roedd Tim Saab Salomon yn enillwyr y pumed ras yng Nghwpan y Byd 'X-adventure Road Series' yn New Caledonia, Y Môr Tawel. Aelodau o'r tîm yw Tim Lloyd, Bodawel a'r rhedwr, Steve Barnard, o Gaernarfon. Fel canlyniad mae'r tîm wedi gorffen yn ail yng Nghwpan y Byd 2003 hefo 346 pwynt, y tu ôl i Les Arcs-Quechua (Ffrainc) hefo 450 pwynt, ac o flaen Equillere Attitude (Ffrainc) hefo 245 pwynt.

CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO. Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Nhafarn Bryngwna nos Lun, 20 Hydref. Yn anffodus roedd y presenoldeb yn isel, hefo nifer o drigolion ar eu gwyliau mewn gwledydd pell.

Roedd digwyddiadau 'traddodiadol' y flwyddyn - Dolig, Pasg a'r haf - unwaith eto yn llwyddiannus ac roedd Cyngor Gwynedd wedi trwsio'r ffram pêldroed ar y man chwarae newydd.

Yn anffodus mae perchnogion cŵn yn dal yn camarwain eu ffrindiau bach i amharchu man chwarae y plant bach ac yn creu risg i iechyd y plant.

Mae gwaith adfer ffiniau'r cae chwarae, y cae pêldroed, wedi dechrau ac mae'r chwaraewyr yn canmol cyflwr yr wyneb chwarae.

Ailetholwyd Clive James fel Cadeirydd a Tim Lloyd fel Ysgrifennydd. Y Trysorydd newydd yw Wyn Jones. Aelodau y Pwyllgor fydd Peris Thomas, Norman Hughes, Richard Jones, Alun Roberts, Huw Ceiriog, Jason Thorman Jones, Eryl Jones. Fel y gwelwch mae prinder merched ar y Pwyllgor a chroesewir dwy neu dair i ymuno â'r hogia! Gan fod dyddiad y cyfarfod blynyddol yn aml yn gwrthdaro hefo wythnos hanner tymor, penderfynodd y cyfarfod symud y Cyfarfod Blynyddol i fis Medi o 2004 ymlaen.

GWASANAETHAU BWS. Dylid nodi fod bws 11.00 yr hwyr o Gaernarfon ddim ond yn mynd i Waunfawr. Am ryw reswm nid oes gwasanaeth yn ôl o Waunfawr am 11.15. Gan fod yn rhaid i'r bws ddychwelyd i'r depo yn Cîbyn, Caernarfon! Pam lai?

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwalth Contract

► Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MARWOLAETH. A'r Eco yn dod o'r wasg y mis diwethaf, daeth y newydd trist am farwolaeth sydyn Mrs Elizabeth Lynes, Snowdon View (Ciss), yn Ysbyty Gwynedd.

Un o blant Fachwen oedd Ciss, a gafodd ei geni yn Bryn Peris, Fachwen ac roedd yn briod â'r diweddar Thomas Lynes. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys St. Mair ac, wedi cau yr eglwys, aeth yn aelod i Eglwys Llandinorwig lle bu'n ffyddlon. Cymerwyd y gwasanaeth claddu yn Amlogsgfa Bangor gan y Deon Gwlad, y Canon Idris Thomas. Yr wyf yn sicr ein bod yn cydymdeimlo yn fawr hefo Brian ac Albert yn eu profedigaeth o golli Mam ac hefyd Bertie, ei brawd, a'r teulu i gyd. Gobeithio y cewch fel teulu nerth oddi uchod yn eich hiraeth a'ch tristwch.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r uchod ar 18 Medi, mynegodd amryw o'r aelodau eu pryder ynglŷn â'r gwasanaeth bws yn Ninorwig.

Daeth adroddiad gan John Cantrell fod cymdeithas arall yn ceisio caniatâd cynllunio i godi cofeb i gyn-weithwyr y chwarel - y cynllun y bwriadodd y Clwb ei drefnu - ond a lesteiriwyd oherwydd y costau uchel y byddid yn rhaid eu talu am ganiatâd cynllunio.

Cyhoeddwyd bwriad y Clwb i fynd ar daith trên o'r Waunfawr i Ryd Ddu.

Gwnaed cofnod o ymateb yr aelodau i holiadur ar anghenion yr

Henoed gan 'Age Concern' ac a gyflwynir i gomisiwn newydd a sefydlir.

Margaret Faulkener a Betty Bower a roddodd y te a'r gwobrau raffl, a enillwyd gan Betty Lloyd Roberts a Betty Roberts. Cyflwynwyd tusw o flodau a theisen i Betty Lloyd Roberts ar ei phen-blwydd.

PEN-BLWYDD. Dymuniadau gorau i Betty Lloyd Roberts, 11 Maes Eilian gynt, ar gyrraedd pen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Gobeithio y caiff iechyd i fwynhau llawer un arall.

DIOLCH. Dymuna Mrs Betty Lloyd Roberts ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar, a hefyd am y dymuniadau da a dderbyniodd yn ei chartref newydd yn Bro Deiniol, Deiniolen. Diolch i bawb.

MARWOLAETH. Yn y rhifyn olaf o'r Eco yr oeddem yn dymuno gwellhad buan i Mr Griffith Pritchard, Pen Dyffryn ond yn anffodus fe fu farw Griffith yn Ysbyty Gwynedd ddechrau'r mis a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Eglwys Crist Llandinorwig, lle yr oedd yn aelod.

Fel ardal, yr ydym yn cydymdeimlo â'i wraig, Mrs Nellie Valmai Pritchard, sydd yn wael ei hiechyd a hefyd â'r unig fab, Richard, a'r teulu i gyd. Gobeithio y cewch nerth oddi uchod yn y dyddiau tywyll yma. Pob bendith.

STEPHEN JONES

✚ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o
redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth yr 2lain o Hydref. Llywyddwyd gan y Gadeiryddes Miss Sara Wood

Offrymwyd y weddi ddechreuol gan y Cyngorydd Richard Ll. Jones.

Cofnodion Medi

Cywiriad - Cofnodwyd bod y ceisiadau isod wedi eu gwrthod, yn lle eu bod wedi eu caniatu gan Wynedd:

Estyniadau yn Penrhyn Bach, Llanrug.

Tyddyn Andrew Cottage, Bethel 28 Caeau Gleision, Rhiwlas 1 Bron y Waen, Rhiwlas

Wern Fawr Llanddeiniolen

Coed y Gelli, 3 Dinorwig Cottages

Adnewyddu tŷ Dinorwig House, Blue Peris

Codi Porth, estyn modurdy - Bron Gynfi, Deiniolen.

Adroddiad Eco'r Wyddfa
Amlygwyd y ffaith bod y sylwadau a wnaed ynglŷn â'r heddlu wedi creu cynnwrf, cyfeiriwyd at yr erthygl yn yr *Herald*.

Darlennodd y Cyngorydd Len Jones ateb Mr Dafydd Roberts, Cyngor Gwynedd, i gwyn y Cyngor ynglŷn â Gilfach Ddu, nid oedd ffigyrau Mr Roberts yn cynnwys y gweithdai. Nid oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Cyngor. Darllenodd hefyd lythyr Gwynedd yn dweud nad oes modd gosod *repeaters* 30 m.y.a. drwy Deiniolen a Dinorwig. Dywedodd y Cyngorydd Dafydd Morris ei fod yn amau bod arwyddion ar goll o ben uchaf Gallt y Foel.

Trafodwyd bwriad y datblygwr i enwi'r tai newydd ar safle Tabernacl, Deiniolen yn 'Felin Uchaf'. Penderfynwyd newid hyn i 'Tai Tabernacl'.

Cyflwynodd y Cyngorydd Phyllis Ellis agoriad hysbysfwrdd Penisa'rwaun i'r CJCRC.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r Cofnodion

Ateb Cyngor Gwynedd mai'r Llang Brydeinig sy'n gyfrifol am y gosb y tu allan i hen Lyfrgell Deiniolen. Dywedodd y Cyngorydd Len Jones ei fod cisiocs wedi trefnu'r gwaith atgyweirio.

Cyflwynwyd atebion Alun Fred Jones AC a Hywel Williams AS ar sylwadau'r Cyngor ynglŷn â Ferodo.

Ail lythyr Gwynedd parthed *Freswylfa*, Clwt y Bont, na osodant arwydd yno gan mai tai preifat ydynt. Atebwyd ei bod yn rhy hwyr i wrthod gan bod y trigolion wedi eu hysbysu o'r bwriad i osod arwydd.

Llythyr Adran Ffyrdd Gwynedd bod gwair wedi ei adael ar dir Tan y Ffordd.

Bethel pan dorrwyd gwair y llwybr - derbyniwyd ymddiheuriad a sicrwydd na ddigwydd hyn eto.

Cyflwynwyd llythyr diolch Pwyllgor Neuadd Penisa'rwaun am gyfraniad y Cyngor at yr hysbysfwrdd.

Rhoddion blyneddol i fudiadau
Derbyniwyd 30 o geisiadau i gyd. Gan bod cymaint o geisiadau o'r tu allan i'r ardal awgrymodd y Cyngorydd Richard Ll. Jones bod y Cyngor yn canolbwyntio ar fudiadau sy'n cyfrannu i fro Llanddeiniolen.

Trafodwyd y canlynol yn fanwl: Tŷ Gobaith a Chronfa Goffa Patrick Eckley - Peidio cyfrannu ond egluro iddynt bod llawer o fudiadau oddi fewn i'r gymuned eisioes yn eu cefnogi. Y Gronyn - gan ei fod yn cael ei ariannu ar hyn o bryd gan yr Ofalaeth Unedig, nid oes mantolen ariannol, rhaid i'r Cyngor lynnu wrth y polisi bod rhaid wrth fantolen.

Trigolion Dinorwig - dangosodd y Gadeiryddes adroddiad bod miloedd lawer o gyllid wrth gefn gan y mudiad yma. Eglurodd y Cyngorydd Len Jones mai cyllid wedi ei glustnodi (a'i ddal gan Gyngor Gwynedd) ar gyfer prosiectau arbennig yw'r arian yma. Gweithredir y prosiectau ar ôl ail-agor y ganolfan. Penderfynwyd cefnogi.

Merched y Wawr, Deiniolen gan osod amod bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y gangen leol. Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005. Eglurodd y Cyngorydd Phyllis Ellis mai'r arferiad, pan fo'r Eisteddfod yn lleol, yw cyfrannu hanner yn hanner dros ddwy flynedd. Cefnogwyd hyn. Awgrymodd y Cyngorydd Len Jones bod cyfraniadau 2002 hefyd yn ymddangos yn yr Eco. Gan bod mwy nag arfer o geisiadau ac er mwyn cadw o fewn y gyllideb, penderfynwyd ar y cyfraniadau yma.

	2002	2003
Ysgol Feithrin, Deiniolen	300	200
Ysgol Feithrin Rhiwlas	150(-bl)	200
Neuadd Penisa'rwaun	300	200
Ncuadd Rhiwlas	300	200
Clwb Ti a Fi, Penisa'rwaun	300	200
Eisteddfod Bethel	200	250
Eisteddfod Penisa'rwaun	200	250
Eisteddfod Gwaun Gynfi	200	250
Eco'r Wyddfa	300	200
Seindori Deiniolen	300	200
Llais Ogwan	50	50
Rygarug	200	200
Clwb Snwcer Deiniolen	200	200
Merched y Wawr Deiniolen	50	50
Clwb Orwig	100	50
Cymdeithas Trigolion		

Dinorwig	-	50
Clwb Bro Bethel	-	50
Cymdeithas Pysgotwyr		
Seiont, Gwyrfa i Llyfni	-	50
Rhwydwaith Beicio Peris	-	50
Eisteddfod Eryri 2005	-	250
Cyfanswm		3150

Gohebiaethau Eraill

Cyflwynwyd llythyr Cyngor Tref Pwllheli ynglŷn â bwriad Sue Essex AC i ail *fandio* trethi tai Cymru ym 2005. Penderfynwyd cefnogi'r gwyn yn gryf trwy ddanfod adroddiad i'r Cynulliad. Derbyniwyd cynnig y Cyngorydd R Hefin Williams i ychwanegu 'codi treth uwch ar dai haf'.

Gwynfor Dafydd yw'r Swyddog Adfywio Bro newydd, gellir cysylltu ag ef yn T? Elidir, Deiniolen. Ffôn 871920.

Cynllunio

Cynllun Unedol Gwynedd
Dywedodd y Cyngorydd Len Jones bod y ffurf newydd yn hollol wahanol i'r gwreiddiol, e.e. nid ystâd, ond rhes o dai dros y ffordd i **Dai Fictoria, Deiniolen** a Rhes arall o Fictoria i gyfeiriad Erw Fair. Penderfynwyd cefnogi ei sylwadau ar hyn. Mae cais cynllunio am godi annedd y tu cefn i Dŷ Elidir, gwrthodwyd hwn o'r blaen am nad oedd mynedfa iawn ato. Erbyn hyn gellir defnyddio mynedfa'r maes parcio. Os daw hyn i fodolaeth mae Len Jones am geisio parhau'r ffordd yma drwodd i Borth y Gogledd.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd :-

Estyniad a modurdy: Greuor Farm Cottage, Bethel.

Malurydd mwynau: Coed Bolyn Mawr, Bethel.

Estyniad: Bryn yr Adar, Gallt y Foel.

Estyniad: 5 Rhês Deiniol, Deiniolen.

Mynedfa newydd a chygodfan anifeiliaid: 4, Carfan, Pentir.

Estyniad: Buarth Newydd, Fachwen.

Codi Ystafell ddarlithio: Canolfan Mynydda, Blue Peris. Dinorwig

Estyniad: Dolwen, Cae Metta,

Llanrug
Gosod ffenestri: Y Weirglodd Goch, Penisa'rwaun
Estyniad: Hafod Garegog, Clwt y Bont

Dymchwel a chodi estyniad: Arthur House, Tai Arthur, Penisa'rwaun

Codi Tŷ unllawr: Cyfagos i 12 Tan y Cae, Bethel

Depo Bwsiau: Cae O.S. 3918 Tyddyn Badin, Pentir

Codi Pedwr Tŷ: Tabernacl, Deiniolen

Llwybrau

Tynnodd y Cyngorydd Dafydd Morris sylw'r Cyngor at gamfa ddiffygiol ar lwybr 18 Bryn'refail - Adroddiad i'r Cyngor Sir.

Materion ychwanegol

Mae angen atgyfnerthu ochr y ffordd ger Bryntirion, Rhiwen, Deiniolen. Cafodd y ffordd ei chodi'n uwch adeg y gwelliannau yn yr wythdegau ac mae'n amlwg bod y pwysau ychwanegol yn ormod i'r sylfaen.

Llythyr Mrs Yvonne Regan, 3 New St, Deiniolen. Cyflwynwyd cynnwys ei llythyr a phenderfynwyd cefnogi ei chwyn am gyflwr difrifol rhifau 1 a 2 New St. Danfon copi o'r llythyr a chefnogaeth y Cyngor i Adran Tai Cyngor Gwynedd.

Gofynnodd y Clerc am ganiatâd y Cyngor i gwyno am wasanaeth 'NHS direct'. Bu achos yn ddiweddar - person mewn poenau mawr am ddeg o'r gloch ar nos Sul. Nid oedd siaradwr Cymraeg ar gael ar wasanaeth ffôn yr NHS, gofynnwyd am holl fanylion y claf dair gwaith gan wahanol rai (yn Abertawe). Pan gyrhaeddodd y meddyg doedd dim o'r wybodaeth wedi ei roi iddo. Cymcrodd 2½ awr cyn i'r Ambiwllans cyrraedd. Dim bai ar yr Ambiwllans, daeth honno o fewn 20 munud o gael gwybod. Cefnogwyd y gwyn.

Adroddiadau

Gan ei bod wedi naw o'r gloch, a bod cyfarfod eto ymhen pythefnos penderfynwyd dal yr adroddiadau tan hynny.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 4ydd o Dachwedd.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor


9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

CROESAIR TACHWEDD



Mewn pwll a nodir â'r llythren D yn 1 ar draws fe osodwyd pum 19 ar draws. Y Rhain yw'r enwau sydd heb gliwiau iddynt. (sylwer y gall rhai gynnwys mwy nag un gair)

Ar draws:

- 10 Yr yd wedi ei falu, ond nid â llif os am ei fwyt! (5)
- 11 Fe'i gwelir rhan amlaf pan fo hi am law (5)
- 12 a hon pan fo hi am lythyr! (5)
- 13 Yr hud y mae Beth, Dan a Dewi yn ei gynhyrchu pan fo'r tri yn cymysgu gyda'i gilydd (11)
- 15 Grym y nwyd? (5)
- 17 Pobl o'r un dras neu 19 ar draws (6)
- 20 Iard y llys? (4)
- 25 Ciwb chwarae (3)
- 26 Y wraig front, anniben ymysg ffrindiau Eric a Glenda (6)
- 28 ac ofallai mam y wraig honno! (4)
- 29 Ergydio er mwyn llosgi? (5)
- 30 Yr hyn sy'n ddigrif yn ynys Malaysia? (6)
- 34 Gwarchod yn y de (5)
- 38 Hogi pensel (5)
- 40 Dangos fod rhywbeth yn wir; drwy ei roi yn y geg? (5)
- 42 Troed y mynydd (5)
- 43 a stadau dyrchafedig (7)
- 44 Arteithiau dychrynlyd (9)

I Lawr:

- 2 March Alwyn wedi iddo gael ei sancteiddio? (7)
- 3 Merch o Sweden? (5)
- 4 Llestri i oleuo'r ffordd (6)
- 5 ... i ferch Dolwar Fach? (3)
- 6 Dannedd hir (8)
- 7 nid hwyrach (6)
- 8 Gafael er mwyn atal (3)
- 9 Ffyrdd cefn gwlad yn y gogledd (5)
- 10 Cwch Sinbad? (3)
- 14 Ymatebol (9)
- 16 Gorffwys am ysbaidd (5)
- 17 Teisen (5)
- 18 Ymryson geiriol (4)
- 22 Llaeth wedi ei droi'n fwyd (4)
- 24 Ymlusgiad hir (5)
- 27 Yr hyn a osodir ar y gacen Nadolig cyn y ffugrew (8)
- 31 Pryf genwair (7)
- 32 Y weithred a wna'r bardd yn berson brenhinol? (6)
- 33 Yn amheus neu'n betrusgar (6)
- 36 Gwrthod mynd o Glynnog i ogledd Lloegr (5)
- 37 Yr un a ddaeth o flaen heddiw (3)
- 39 Dysgl i ddal ymenyn mcwn cannoedd o gartrefi (3)
- 41 Trefniant i gyfarfod mewn tafarn ym Metws y Coed! (3)


Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Derbyniais atebion i groesair mis Hydref gan Ceinwen Williams, Bethel; Alvona Jones, Prestatyn; Nansi Davies, Rhuthun; Pat Owen, Caerfyrddin; D.J.Griffith, Pwllheli; N. Hughes, Cwmyglo; E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Enid Jones, Talysarn; E.E.Jones, Rhoshirwaun; Olwen Jones, Bethel; Gareth Oliver, Tregarth; Megan Morris ac Alice M.Griffith, Dinorwig; M.P. Jones a Jennie Williams, Clynnog; Eluned Jones a D.B. Williams, Trefor; Vera Griffiths, Nan Owen, Moreen Lennon ac Olwen Owen, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon; Ceridwen Williams, Eirian Roberts a Tegid Roberts, Llanrug.

D.B. Williams, Isfryn, Trefor, Caernarfon, LL54 5HN ydi enillydd y mis.

Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Tachwedd, gyrwch eich atebion i gyrraedd Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn Tachwedd 17.



Asgellwr a gôl geidwad 'handi' o'r dyddiau a fu.
Max yn cyfarfod a chyfaill ers sawl blwyddyn - Gordon Banks.

Jones
Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

CHWARAEON

Mae'r Ddawn Yno o Hyd!

Braf yn ddiweddar oedd cael gwahoddiad i ddyfarnu gêm bêl-droed arbennig. Gêm her oedd hi rhwng tîm dros 40 ardal bro'r *Eco*, a'u cyfoedion o dre'r Cofis. Ar gae pob tywydd Llanrug y chwaraewyd y gêm, ac roedd yr wyneb llyfn yn llwyfan da i'r 'hen hogiau' ddangos eu sgiliau. Diolch i David Phillips (Bro'r *Eco*) a Gerald Parry (Caernarfon), y ddau reolwr am hel y ddau dîm at ei gilydd.

Er bod ambell fodfedd wedi ei ymestyn o gwmpas y canol ac ambell welltyn gwyn ar y copa, roedd y sgiliau cynhenid yn aros. Yn wir, prif wahaniaeth y gêm yma i nifer o gemau lleol ar hyn o bryd oedd gallu'r 'hen bennau' i greu le iddyn nhw eu hunain. Eithriad yn wir oedd y bêl hir – bwrn y gêm fodern. Un peth, wrth gwrs, nad oedd yr un chwaraewr wedi ei golli oedd yr elfen gystadleuol. Gêm go iawn oedd hon.

Ar ddiwedd y noson y Cofis aeth adref yn hapus, wedi ennill o 2-1, a hynny diolch i lu o arbedion da gan Robin Williams, eu gôl-geidwad. Roedd Peter Roberts (Pete Coch) yn dal i wisgo'r rhif 2 ac un o sylwebwyr Radio Cymru, Meilir Owen, yn rheoli y rhes gefn. Gobeithio ei fod yn rhoi cyn gymaint o 'stic' i'r dyfarnwyr ar ddydd Sadwrn ag a roddodd i'r dyfarnwr y noson honno. Ie, cocyn hitio fu y 'dyn

mewn du' erioed. Gyda llaw, braf oedd dyfarnu gêm heb y toreth o iaith aflednais sy'n britho'r gemau mor aml heddiw.

Braf oedd gweld Selwyn Allsup yn ôl ar y maes – mor gystadleuol ag erioed. Yn wir roedd yn creu cryn benbleth i'w reolwr. Gan fod 'return match' i fod yn erbyn y Cofis roedd rhaid gwneud yn siŵr nad oedd yn cael cerdyn melyn arall – i fynd hefo'r un oedd yn cario drosodd o 1983! Chwarae teg i 'Colina', fe fydd Sel yn yr ail-chwarae.

O gofio y noson oer a'r diffyg poteli dŵr poeth, roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Yr oedd y fformat o dri cyfnod o chwarae am 25 munud yr un hefyd yn plesio. Mae'n bwysig cael gorffwys yn ystod gêm! Sgoriwyd gôl Bro'r *Eco* gan Kevin Owen, yn codi fel eryr i benio'r bêl o gic cornel John Williams.

Yn dilyn y gêm, clywais fod yr oedran yma yn dechrau denu timau. Y sôn yw ei bod yn bosib y bydd timau Bro'r *Eco* (Dyffryn Peris), Caernarfon, Bethel, Pen-y-groes a Phyllheli. Digon i ffurfio cynghrair tybed? O gofio fod y mwyafrif o'r oedran yma wedi chwarae pan oedd pêl-droed lleol ar ei gryfaf dylai wneud cystadleuaeth dda. Ac o sôn am y pegwn hŷn, beth am yr oed iau? Ydi hi'n amser meddwl am dîm -18 Dyffryn Peris, i gystadlu yng Nghwpan Ieuencid y Gogledd?



Tîm dros 40.

Ennill oddi ar y cae

Ceir cryn sylw i bêl-droed ieuencid yn y colofnau yma, ond yn Llanrug, mae'r cystadlu wedi mentro oddi ar y cae. Yr oedd tîm -11 Llanrug a'u swyddogion wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer cwis chwaraeon C2 a gynhelir ar Radio Cymru ar fore Sadwrn. Y cyflwynydd yw Stephen 'Weiren Gaws' Edwards o Lanberis, rhedwr pybyr yn Ras yr Wyddfa. Yn y rownd gyntaf roedd tîm Llanrug yn herio tîm pêl-droed Brynaman o'r de. Y gogs a orfu a byddant yn camu ymlaen i'r ail rownd yn hyderus yn ystod y mis yma.

Nid yw hwn yn gwis ffurfiol gan fod elfen gymdeithasol

ynghlwm â fo. Daeth nifer i gefnogi'r tîm yn eu 'stiwio' yn nhafarn Penbont a hoffai'r swyddogion ddiolch i Geraint a Wendy am eu cymorth parod ar y diwrnod ac i'r llu rheini a ffrindiau a ddaeth i gefnogi.

Y wob'r i'r tîm buddugol ar ddiwedd y gystadleuaeth fydd cit pêl-droed cyflawn, wedi ei roddi gan raglen C2.

Mae un cysylltiad arall wedi ei wneud hefyd o ganlyniad i'r ymddangosiad ar y rhaglen. Mae Stephen Edwards wedi cytuno i ffurfio tîm 'Sêr Radio Cymru' i ddod draw i Lanrug i herio tîm 'hen bennau' yr ardal.

Croeso adref



John Rich a Gwil yn rhes flaen tîm llwyddiannus 1964-65.

Galwad ffôn gan Ken James (peintwr) ddechreuodd y stori. Eisiau gadael i mi wybod fod un o'r 'hen hogia' wedi dod adref i Lanberis.


Y chwaraewr dan sylw oedd John Richard Roberts (John Rich) a oedd yn aelod o dimau cryf y Darans yn y 60au. Gwnaeth ei farc fel bachgen ysgol, ynghyd â'i 'bartner' dawnus, Gwilym Williams (Gwil Bach). Yn ei lyfr sy'n cronicle hanes canmlwyddiant y Darans mae Arwel yn cyfeirio at y bachgen ysgol fel 'chwaraewr â'i ddawn gynhenid mor aeddfed'. Yr atgof sydd gan lawer mae'n siŵr yw o'r chwaraewr egniol gyda 'injan dda', yn rhedeg hwnt ac yma, gyda'r ddawn i roi'r bas dreiddgar. Y mop gwallt, ond am un a ymddangosai yn eiddil, gyda rhyw gydbwysedd arbennig â'i galluogai i 'reidio' taclo grymus rhai o 'hogia mawr' y gynghrair yr adeg honno.

Yn wir, fe gafodd John Rich a Gwilym Williams dreialon i Dîm Ieuencid Cymru. Yn sicr, roedd Lal Jones wedi darganfod dau o rai da ar steipan drws, fel petai. Y bachgen o Turner (Dôl Elidir wedyn) a'r asgellwr o Cwm yn denu cryn sylw. Rhaid nodi hefyd mai dyma'r cyfnod ble roedd nifer o chwaraewyr yn chwarae i'r ysgol yn y bore, yna tîm y pentref yn y pnawn. Trist yw meddwl cyn lleied o gemau ysgol a chwaraeir erbyn heddiw – ac yn sicr nid ar y bore Sadwrn traddodiadol.

Beth yw hanes John Rich erbyn hyn tybed? Ymfudodd i Ganada yn 1969 a dilyn galwedigaeth fel athro Mathemateg ac Ymarfer Corff. Ei gartref yng Nghanaada yw Saskatoon yn nhalaith Saskatchewan. Mae John, sy'n 57

erbyn hyn, yn gweithio'n rhan amser ac yn ystod ei yrfa wedi cael dyrchafiad i fod yn ddirprwy-brifathro yn yr ysgol uwchradd lleol.

Dydy'n anhygoel faint o athrawon/pêl-droedwyr a gynhyrchodd yr ardal yma dros y blynyddoedd. Mae gan John a'i wraig, Lynne, dri o blant, sydd erbyn hyn i gyd yn fyfyrwyr mewn gwahanol brifysgolion. Bu'r bêl-droed yn agos iawn at ei galon yng Nghanaada. Bu'n hyfforddi timau ieuencid am dros 30 mlynedd ac hefyd yn ddyfarnwr. Mae'n derbyn *Eco*'r Wyddfa yn rheolaidd, gan mai prin iawn yw'r Gymraeg ar beithdir Canada. Yr oedd wrth ei fodd, gyda llaw, gyda buddugoliaeth Cymru yn erbyn Canada yng Nghwpan Rygbi y Byd. Dymunwn yn dda i'r 'hogyn o Lanbêr' a'i deulu yng Nghanaada bell, gan wybod fod ei galon o hyd yma, ac yn ymfalchïo, fel y dywed Arwel, ei fod yntau wedi bod yn 'un o'r Darans'.



Ken James a John Rich.

Gemau Tyngedfennol

Yr wyf yn ysgrifennu'r erthygl yma ddau ddiwrnod cyn un o gemau mwyafrif tyngedfennol ein tîm rygbi cenedlaethol. Os llwyddir i guro ccwri'r Eidal, yna byddwn wedi cyrraedd beth oedd prif nod y tîm mae'n ymddangos, sef cyrraedd yr wyth olaf. Os llwyddir yna mae'n gosod llwyfan i symud ymlaen yn hyderus am y tro cyntaf ers blynyddoedd.

Mae arwyddion cynnar fod y drcfn newydd o dimau rhanbarthol yn dechrau ennill ei blwy. Y mae'r prif hyfforddwyr yn y clybiau yn ceisio dod yn ôl i'r dull cynhenid o gêm gyflym, agored. Gyda Steve Hansen eisoes wedi dweud ei fod yn dychwelyd adref i Seland Newydd ar ddiwedd Cwpan y Byd, yna daw

cyfle i apwyntio Cymro fel hyfforddwr cenedlaethol. Yn sicr, mae Gareth Jenkins (Llanelli) a Lynn Jones (Castellnedd/Abertawe) yn ddau uchel iawn eu parch. Credaf hefyd y buasai'r cefnogwyr yn uniaethu gyda un o'r ddau yma. O golli yn erbyn yr Eidal, mae'n siŵr mai hyfforddi tîm Cymru fuasai y swydd i gadw'n glir ohoni.

Dau yn sicr, fydd yn daer eu cefnogach yw John a Diana, rhieni Robin McBride. Mae'r ddau wedi symud i fyw i Frynrefail ers sbel. Onid braf fuasai mynd draw i Frynrefail rhyw ddiwrnod i dynnu llun Robin wedi dod a medal cnillydd Cwpan y Byd adref i ddangos. Tybed!